# ECO'R WYDDFA

Rhif 36 EBRILL 1979 Pris: 12c

## EIRA MAWRTH!



*Yn sicr, gadawodd Mawrth ei ôl ar yr ardal. Dyma olygfa yng Ngheunant tua chanol y mis. Bytheirio oedd y modurwr ond 'roedd y plant wrth eu bodd!*

## Maes Parcio – I'w Godi Neu I'w Gadw

**BYDD gwrthwynebiad ffyrnig gan drigolion Llanberis os aiff y Bwrdd Canolog Cynhyrchu Trydan ymlaen i godi Ffordd yr Amgueddfa a'r Maes Parcio eang yn ei hymyl.**

Dros dro yn unig y bwriadwyd y maes parcio. 'Roedd yn ddealladwy y byddai'r B.C.C.T. a fu'n gyfrifol am adeiladu'r ffordd a'r maes parcio, un diwrnod yn gorfod eu codi a'u clirio. Byddai hyn wedyn yn galluogi'r Bwrdd i fynd ati i harddu'r argae drwy hadu'r pridd a phlannu coed a phlanhigion yn y tir. Yr amcangyfrif o gost hyn oll, beth amser yn ôl, oedd £70,000.

Mae arbenigwyr sy'n cynghori'r Bwrdd Trydan ar faterion o'r fath yn dweud mai dyletswydd y B.C.C.T. yw codi'r maes parcio, ac mae Swyddogion Cynllunio yn y Cyngor Sir o'r un farn. Eu dadl hwy yw fod addewid wedi ei wneud ac na ddylai'r Bwrdd dorri eu gair. **Awgrymodd y Swyddogion Cynllunio y dylai'r Cyngor Sir chwilio am dir addas yn yr ardal ac yna adeiladu maes parcio arno.**

Ar y llaw arall, mae teimlad cryf yn Llanberis y dylai'r B.C.C.T. adael y ffordd a'r maes parcio fel ag y maent. Dadl Cyngor Cymuned Llanberis yw bod gwir angen maes parcio o safon yn y pentref; dyna haeddiant pentref sy'n cael ei gyfrif fel un o'r canolfannau ymwelwyr prysuraf yng Ngogledd Cymru. Yn ystod y tymor gwyliau rhaid i yrrwyr bysiau a modurwyr fodloni ar barcio ar ochrau'r briffordd ac ar ffyrdd yr ystadau tai. Dyma sefyllfa allasai achosi perygl yn ogystal ag anhwylustod i drigolion yr ystadau.

Mae safle'r maes parcio'n ddelfrydol o ganolog ar gyfer y llyn, rheilffordd y llyn a'r amgueddfa. Gorsaf rheilffordd yr Wyddfa, a'r Castell. Byddai hefyd o fewn cyrraedd y Ganolfan Hysbysrwydd y bwriedir ei chodi.

**Onid yw'n sefyllfa ryfedd? Pe bai Cyngor Sir Gwynedd yn derbyn awgrym y swyddogion yn yr adran gynllunio yna byddai'r Cyngor yn mynd ati i adeiladu maes parcio newydd sbon rhywle yn Llanberis. A beth am y gost i'r trethdalwyr? Ar yr un pryd bydd contractwyr y B.C.C.T. yn darnio a chliro maes parcio cwbl addas ar gyfer anghenion pentref Llanberis. Amcangyfrifwyd y byddai'r gwaith hwn yn costio dros £70,000.**

Mae'r rhai sy'n gwrthwynebu'r cynllun i godi'r maes parcio yn gweld hyn oll fel gwastraff llwyr ar adnoddau ac arian. Ymysg y gwrthwynebwyr mae'r Cynghorwyr lleol T. Wyn Williams a Francis Jones, Dafydd Wigley, A.S. a chadeiryddion Cyngor Gwynedd a Chyngor Arfon. Mae Iorwerth Ellis, rheolwr y Cynllun Trydan hefyd o'r "un farn â'r bobl leol , ac amryw eraill, mai gwastraff ar adnoddau fyddai gwneud hyn."

Mae deiseb wedi ei threfnu ac yn ôl Mr Ken Jones, Cadeirydd y Cyngor Cymuned gobeithir cael tua 2,000 o bobl – pentrefwyr a chynghorwyr o bob math i'w harwyddo.

Bydd llawer o drin a thrafod yn digwydd yn y dyfodol agos. Byddwn ninnau'n falch i roi adroddiad yn yr **Eco** o unrhyw ddatblygiad.

## EISTEDDFOD GYNTA' 'BRO'R ECO'



*Selwyn Griffith wedi mentro o'r Llannerch i ganol y merched. Dyma fo yn cyflwyno Tlws Eco'r Wyddfa i Mrs N. Lovatt, arweinydd Merched y Wawr Llanrug – y gangen fuddugol. Dyma'r eisteddfod gyntaf o'i bath yn y fro. Canlyniadau a rhagor o luniau tu mewn.*

## Codi Arian Tuag At Gartref T.R.H.



*Dewi Williams, prif ddisgybl Ysgol Brynrefail yn cyflwyno siec o £50 i Mr Ken Jones, cadeirydd Cyngor Cymdeithas Llanberis, – yr arian tuag at Gronfa Angorfa. Plant dosbarth chwech drefnodd y disco.*

# ECO'R WYDDFA

**RHIF 36** **EBRILL 1979**

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Nant Peris*

*Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru*


## SWYDDOGION A GOHEBWYR

**GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:** Twrog Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

**GOLYGYDD ERTHYGLAU:** Arwel Jones, Gwên-y-Wawr, Llanrug (C'fon 3719)

**GOLYGYDD NEWYDDION:** Tony Elliott, Crud y Wawr, Bryneglwys, Penisarwaun.

**GOLYGYDD CHWARAEON:** Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun.

**TREFNYDD NEWYDDION YSGOLION:** Iwan Lloyd Williams, Bryn Idris, Llanberis (Llanberis 515)

**DYDDIADUR Y MIS:** Miss Jane Morris, Blodwel, Dôl Elidir, Llanberis (Llanberis 220)

**FFOTOGRAFFWYR:** Ifan Parry, Morwel, Ceunant. (Waunfawr 321)
Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669)

**TREFNYDD HYSBYSEBION:** John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug.

**TREFNYDD GWERTHIANT:** Selwyn Williams, Cartref, Ffordd yr Orsaf, Llanrug (C'fon 3577)

**TRYSORYDD:** Gwyn Oliver Jones, 58 Pentre Helen, Deiniolen.

**TREFNYDD GWERTHIANT POST:** Mrs. E. Evans, "Lloc," Llanrug.

**GOHEBWYR PENTREFI:** Dyma'r bobl i gysylltu a nhw yn eich ardaloedd

BETHEL: Geraint Elis, Sycharth, (Portdinorwic 726)
BETWS GARMON: Mrs. Brenda Jones, Bryn Tegid (Waunfawr 294)
BRYNREFAIL: D.G.Ellis, Gweledfa, Brynrefail (Padarn 223)
CEUNANT: Ifan Parry, Morwel (Waunfawr 321)
CWM-Y-GLO: Mr. Dafydd Price.
Ty Capel, Cwm-y-glo. (Llanberis 550)
DEINIOLEN: Meirion Jones, Minafon, Clwt-y-bont. (Llanberis 452).
DINORWIG: O.R.Williams, 2 Bro Elidir (Llanberis 671)
LLANBERIS: Mrs. Siân Thomas, Foelas, Stryd Newton (Llanberis 220)
NANT PERIS: T.J. Roberts, Llys Awel
LLANRUG: Mrs. Eirlys Pierce, Swyn yr Awel, Llanrug. (C'fon 3776)
PENISARWAUN: Leslie Larsen, Llygad yr Haul, (Llanberis 533)
TAN Y COED: Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tan y Coed (W'fawr 355)

### DIOLCH

Dymuna Mrs Deiniol Wynne Edwards ac Elsie Thomas gydnabod gyda diolch cywiraf, bob caredigrwydd a chydymdeimlad a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth o golli un annwyl. Maent yn gwerthfawrogi yn fawr y llu o gardiau a llythyrau, pob gair caredig a phob cymwynas a dderbyniwyd yn ystod ei waeledd ac ar ddydd yr angladd.

# LLYTHYRAU

*Annwyl Olygydd,*

*Gaf fi ddyfynnu o lyfr a ddarllenais rai blynyddoedd yn ôl? Enw'r llyfr:* **Llanberis, ei Phobol a'i Phethau** *gan Tecwyn Parry, yn y flwyddyn 1908. Fe ddywed yr awdur yn ei ragymadrodd ei fod wedi chwilio'n fanwl i hanes a thraddodiad ei ardal. Nid wyf yn gwybod (meddai) am neb wedi ysgrifennu ar y testun hwn ond Mr William Williams, Bod y Gof, Llanberis. Y mae eiddo Mr Williams ers blynyddoedd bellach allan o argraff. Bu ei lyfr ef yn gryn gynorthwy i mi wrth baratoi y llyfr hwn. Mae yna bennod yn y llyfr, am* **Hen Bobol Plwyf Llanberis,** *ac wrth sôn am hen bobol y Nant mae pedair tudalen am Marged Uch Ifan. Gaf fi yn awr ddyfynnu o'r hanes a ysgrifennwyd yn y llyfr:*

*"O'r diwedd, yn ei hamser da ei hun, dewisodd gymar bywyd yn ôl ei ffansi, a hwnnw ym mherson y mwyaf llwfrgalon y gwyddai hi amdano. Rhisiart Williams, y telynwr, oedd hwnnw. Gŵr ffraeth oedd, a diddan fel ei wehelyth. Cyfansoddodd naw o ddarnau y mae'r ddwy hyn yn adnabyddus:* **Merch Megan** *a* **Megan a gollodd ei Gardas,** *y mae'r saith arall yn gyfryw ac sydd yn cael eu hystyried yn dda iawn gan hen delynwyr. Bu farw tua'r flwyddyn 1789, cyrhaeddodd yr oedran teg o 102, ac ni bu awr erioed yn ei gwely oherwydd afiechyd."*

*Daeth ysgrif gan D.W. Thomas,* **Y Ffordd Newydd** *yn y rhifyn diwethaf o'r* **Eco** *ag atgofion hapus i mi am ddyddiau plentyndod. Mae'n holi lle yr oedd Corn Du — ar ochr y ffordd ym mhen uchaf i lyn Peris. Ar dywydd caled byddai yn rhewi — dyna newydd da pan fyddai un o'r plant yn gweiddi "Mae Corn Du yn dal." Ar ôl amser ysgol byddem yn mynd i sglefrio arno. Ond 'chaiff yr un plentyn eto y wefr gan bod y Cynllun Trydan Dŵr wedi ei lanw â miloedd o dunelli o rwbel. Yr oedd Mr Thomas yn holi am "Bwlch Safn y Ci" — y drofa gyntaf ar y ffordd wedi dod trwy Pentra Castell.*

*Yr eiddoch yn gywir,*
*J.W. Elis (Perisfab)*

*Y Dalar Deg,*
*Llanrug.*

*STATION ROAD – ACHAFI!*

*Annwyl Syr,*

*'Rwyf wedi byw yn Llanrug er 1917 gyda rhyw 17 mlynedd oddi yma ond yn troi'n ôl at fy ngwreiddiau bob tro. Y peth sy'n mynd dan fy nghroen i ydi'r enw Saesneg yma sydd wedi ei roi ar y ffordd i lawr y pentref o'r Post i Benybont – y Station Road bondigrybwyll yma. Pwy fu'n gyfrifol am yr enw? Yn un peth 'does dim stesion ers blynyddoedd – er pan benderfynodd y Rheilffyrdd Prydeinig fod cerdded neu fysiau yn ddigon da i bobol yr ardal. Y mae'r "bobol ddwad" yn cymryd yn ganiataol mai dyma oedd yr enw erioed, ond hyd y gwn i 'does dim enw swyddogol wedi ei roi. Mae ambell Gymro twymgalon yn ei gyfieithu a'i alw yn Ffordd yr Orsaf. Chwarae teg i'r cyngor maent wedi rhoi enwau hyfryd ar eu stadau ac iddynt ystyr, fel Bro Rhuddallt, Rhosrug a Glanmoelyn ac wedi Cymreigio y rhesi tai, ond Station Rd! Achafi!*

*Wedyn, dyna i chi adeiladydd wedi codi stad o dai unllawr preifat a'i galw yn Mountain View. Beth a fuasai o'i le ar Trem ar Fynydd? Neu efallai fod yna enw ar y tir lle'r adeiladwyd y tai. Mae Brynmoelyn, Minffordd, Glanffynnon (ond ddim Glanffynnon Rd. os gwelwch yn dda, Bryn Gro yn well o lawer), Talybont, mae'r enwau Cymraeg yma yn gysylltiedig â daearyddiaeth yr ardal. Beth am gystadleuaeth* **Eco'r Wyddfa** *i roi enw priodol Cymraeg i ganol yr hen bentref a chael y cyngor i'w fabwysiadu'n swyddogol?*

*Yr eiddoch yn gywir,*
*G.M. Jones (Mrs)*

21 Lawrence Avenue,
Maulton,
Northwich.

*Annwyl Olygydd,*

*Dyma fi yn ysgrifennu gair i chwi o Sir Gaer. Derbyniaf* **Eco'r Wyddfa** *bob mis yn gyson, gan fy chwaer Helena Munro o Corby Northants.*

*Yn Rhifyn 34, Chwefror 1979 gwelais ddarlun o Lyn Padarn, Llanberis wedi'i rewi'n gorn, gaeaf 1917.*

*Geneth fach saith oed oeddwn y pryd hynny, ond mae gennyf gof hyd y dydd heddiw amdano.*

*Merch i'r diweddar William a Kate E. Evans, Pentaicroesion, Penisarwaun ydwyf. 'Roedd fy nhad a'm brawd, Owen (Now y gelwid ef gan bawb) yn gweithio yn chwarel Dinorwig. 'Roedd e'n un flynedd ar bymtheg oed ar y pryd.*

*Un noson daeth fy nhad adre am ei swper chwarel. Gofynnodd mam iddo "Ble mae Now?" a dyma ei ateb: "Mae o yn sglefrio ar Lyn Padarn". Mi sglefriodd o'r Gilfach Ddu i Ben Llyn ac wedyn cerdded trwy Stabla, Craig y Ddinas, a chyrraedd adre saith o'r gloch, a mam druan wedi poeni ac yn ofni'r gwaethaf. Os oes darllenwyr yr* **Eco** *yn ardal Penisarwaun yn ein cofio, Now Ship a Mary Ship oedd ein glasenwau. Tonic i'm calon yw darllen y papur bach, a chael hanesion o Gymru annwyl. Gobeithio y bydd yr* **Eco** *yn datblygu o ddydd i ddydd.*

*Yr eiddoch yn gywir iawn,*
*Mrs Mary Pritchard (Evans gynt)*

*Annwyl Syr,*

*Darllenais hanes angladd Dilys Cadwaladr. Yr oeddwn yn falch iawn o weld yr hanes gan Mrs Mary Lloyd Williams (Mari Lewis Yr Herald).*

*Un peth a'm tarawodd oedd hyn: yr oeddwn newydd fod yn darllen Atgofion Dilys Cadwaladr ac mae hi'n sôn am adeg cynhebrwng ei thad o Gricieth i Lanrug a'r ffordd yn wyn dan eira ac meddai, "Mae a wnelo'r eira â'm llwybrau i."*

*Mor wir oedd ei gair yntê – gan i lawer o'i ffrindiau o wahanol ardaloedd lle y bu yn brifathrawes fethu dod i'r angladd oherwydd yr eira a'r rhew! Diolch am yr hanes.*

*Yr eiddoch,*
*Maggie M. Hughes,*
*Cyffordd Llandudno.*

### RHIFYN NESAF


**Daw y rhifyn nesaf allan nos Iau, 26ain o Ebrill. Y deunydd i law y golygyddion perthnasol ar Ebrill 18ed.**

### DIOLCH

**Gyda diolch diffuant i'r canlynol am eu cyfraniadau hael tuag at gyllid yr *Eco*.**

**£5: Di-enw, Llanberis.**
**£1: Mrs Olwen Edwards, y Rheithordy, Llanllechid.**
**£2: E.W. & M.E. Humphreys, Bodneithior, Llanfairpwll, Môn.**
**£2: Teulu'r diweddar Mr Perkins, Dinorwig.**
**£2: Mrs J. Jones, Tŷ Uchaf, Ceunant; Mr a Mrs Rol Williams, Waunfawr**
**£1: Ffrind i'r Eco, Caernarfon**
**£1.00: Miss Gwyneth Rees Jones, 'Rallt Goch, Ceunant, Llanberis.**
**£0.50: Di-enw, Llanrug.**
**£3: Dr. R. Fraser Williams, Sale, Swydd Gaer.**
**£1: John Evans, Maes y Dref, Clwt-y-bont.**
**£1: Di-enw Llanberis.**


MODURDY MENAI



FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI

Ffôn : Portdinorwic 670882
Perchennog : J. Evans

# BRYNREFAIL

MARW — (Y ddiweddar Mrs Eifiona Jones, Bryn Eryr.) — Ychydig wedi i'r rhifyn diwethaf fynd i'r wasg, brawychwyd y pentref a'r ardal gyda'r newyddion am farwolaeth Mrs Eifiona Jones. 'Roedd yn foneddiges hawddgar a hoffus a oedd yn amlwg iawn ym mywyd y pentref a'r ardal. 'Roedd yn adnabyddus fel cantores ac yn gyfeilydd ac arweinydd y gân yn y capel lle bu'n aelod ffyddlon nes y caethiwodd gwaeledd hi. Cnoc drom iddi oedd colli ei merch yn bur ifanc ond ychydig fisoedd yn ôl, a chydymdeimlwn yn ddwys iawn â'r holl deulu yn eu profedigaeth.

Cydymdeimlwn hefyd gyda Mrs Gwyneth Jones, 12 Trem Eilian ac hefyd gyda Mrs Gwyneth Evans, Ty'n Buarth yn eu profedigaeth hwythau yn ystod y mis a aeth heibio.

CLWB PEDWAR UGAIN — Enillwyr mis Chwefror: Chwefror 2: 1. Carol Houston, 2. Trem Eilian; 2. Myrddin Jones, Greuor Villa; 3. Dafydd Ellis, Gweledfa. Chwefror 9: 1. John Smith, 1 Tai Orwig; 2. Islwyn Williams, Dinorwic House; 2. Jennie Roberts, Penllyn. Chwefror 16: 1. Charles Jones, Deiniolen; 2. Betty Owen, Tros yr Afon; 3. Maldwyn Jones, 1 Tai Orwig. Chwefror 23: 1. Wilbert Williams, Marino; 2. Barbara, Lerpwl; 3. Gwyn Mowl, Bryn Llwyd.

CLWB MAMAU — Daeth nifer o aelodau ynghyd ar Fawrth 8 a chafwyd noson ddifyr dan ofal Mrs Moira Ellis. Rhoddwyd y te gan Mrs Margaret Wardle a Mrs Jill Harris o Gwm-y-glo a rhoddwyd anrheg y mis gan Mrs Sheila Williams ac fe'i enillwyd gan Mrs Ann Parry.

SEFYDLIAD Y MERCHED — Daeth nifer o aelodau ynghyd pan ymunwyd gyda'r henoed yn Nhŷ Glas ar Fawrth 15. Cafwyd noson ddifyr yng nghwmni Mr a Mrs Evans o Lanrug a ddangosodd sleidiau o'r dull a thraddodiad o addurno Ffynhonnau. Rhoddwyd y te gan Mrs Knox, Mrs Sheila Williams, Mrs Carol Houston a Mrs Betty Owen. Rhoddwyd anrheg y mis gan Mrs Rhian Jones ac fe'i enillwyd gan Mrs Iola Owen.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL — Pleser yw datgan fod £551.21 wedi ei hel at y gronfa ac fe ddylem gyrraedd y nod o £600 gydag un ymdrech arall yn y dyfodol agos.

DYWEDDÏAD — Llongyfarchion i Carl Hasson, Bryn Myfyr a Lorraine Stone o Fiwmares ar eu dyweddïad ar Mawrth 10.

Llongyfarion hefyd i Mr a Mrs Owen Tros yr Afon ar achlysur eu priodas arian ar Mawrth 6.

O'R YSBYTY — Croeso adref i Mrs Pat Jones, Cae Coch a dreuliodd rai dyddiau yn yr ysbyty yn ddiweddar a hefyd i Rodney Roberts, 1 Minffordd sydd hefyd wedi gwella ar ôl derbyn triniaeth yn yr ysbyty.

Mae nifer o blant y pentref, ac oedolion hefyd yn cwyno dan annwyd a ffliw, a dymunwn adferiad buan iddynt oll.

## Eisteddfod Gyntaf Merched Y Wawr

**Cynhaliwyd Eisteddfod Merched y Wawr, Bro Eco'r Wyddfa yn Ysgol Brynrefail, nos Iau, Mawrth 8. Yr oedd yn llwyddiant ysgubol, ac mae'r merched yn gobeithio ehangu'r eisteddfod yn y dyfodol i fod yn Eisteddfod i blant, neu hwyrach Eisteddfod Ardal.**

Y buddugwyr oedd: Parti cydadrodd: 1. Bethel; 2. Llanrug. Gwaith Llaw: (cerdyn Nadolig): 1. Mrs Jane Williams, Llanrug. Clustog: Mrs Dorothy Williams, Llanrug, 2. Eurwen Rowlands, Llanrug, 3. Jean Roberts, Llanrug. Parti Chwibanwyr: 1. Llanrug; 2. Waunfawr. Sgets: 1. Llanrug, 2. Deiniolen, 3. Waunfawr. Dawnsio Gwerin: 1. Llanrug, 2. Waunfawr. Côr Cangen: 1. Llanrug, 2. Waunfawr.

Enillwyd tarian Eco'r Wyddfa gan gangen Llanrug a chyflwynwyd hi gan Mr Selwyn Griffith, Bethel i Mrs Nansi Lovatt, llywydd y gangen.

Yr arweinydd oedd Mr Rol Williams, Beirniaid: Canu: Mr Maldwyn Parry, Adrodd: Y Parch. Trefor Jones. Dawnsio Gwerin: Mrs Awenna Jones. Gwaith Llaw: Miss Rhiannon Jones, Arlunio: Mr Evie Roberts. Mrs Beth Ann Williams, ysgrifennydd cangen Llanrug a wnaeth y trefniadau.



*Parti chwibanu y Waunfawr yn poeni am eu dannedd gosod yn Eisteddfod Merched y Wawr, Llanrug.*

# WAUNFAWR

PRIODI — Dymunwn briodas dda yn llawn hapusrwydd i Susan Dawson, Bro Waun a Vernon Hughes o'r Felinheli a briodwyd ar Fawrth 3. Byddant yn ymgartrefu yn 27 North Road, Caernarfon.

DYWEDDÏO — Yn ddiweddar dyweddïodd Geraint Owen, Bryn Gwylan gyda Veronica Pritchard o Lanberis a dymunwn yn dda iawn iddynt. Hefyd dyweddïodd Brian Parry, 16 Bro Waun gyda Shirley Williams o Edern.

CYDYMDEIMLO — 'Roedd yn ddrwg gennym glywed am farwolaeth chwaer Mrs G. Williams, Dolwar Fach a hefyd bu farw Mrs K.W. Williams, Tegannedd. Collodd Mrs Williams, 4 Ael y Bryn ei modryb, Mr Hugh Parry, 16 Bro Waun ei frawd a Mr Raymond Williams, Plas Glyn Afon ei fam.

Estynnwn ein cydymdeimlad i'r holl deuluoedd.

YN YR YSBYTY — Dymunwn adferiad buan i'r canlynol sy'n yr ysbyty — Mrs M. Roberts, Llwyn Celyn, Mr Richard Pierce, Tref Eilian; Miss Marilyn Roberts, Bod Afon.

O'R YSBYTY — Croeso'n ôl adre' i'r canlynol: Mr Francis Williams, Bryn Golau; Mr R.L. Parry, Eilian Terrace; Mr William Griffiths, 25 Tref Eilian; Mr E.J. Hughes, Bro Waun a Mrs Dilys Williams, Llys Seibiant.

ER COF — Dymuna Mrs Mwynwen Jones a'r teulu, 19 Tref Eilian ddiolch i bawb a gyfrannodd mor hael er cof am y diweddar Mr Gwyrfai Jones. Bydd y swm o £150 yn cael ei gyflwyno i Gapel Bethel.

GOLFF — Tra ar ei wyliau yn Majorca yn ddiweddar enillodd Dr. Raymond Williams gwpan am chwarae golff. Gobeithio y caiff gystal hwyl y flwyddyn nesa' ym Minorca, lle mae'r tyllau'n llai.

YR AELWYD — Aeth nifer o blant yr Aelwyd i ganolfan yr Urdd ym Mlaencwm yn ddiweddar i gerdded ac i ddringo. Cafwyd llawer o sbri a charem ddiolch yn arbennig i Dic, John Roberts a Stephen am roi o'u hamser prin i fynd gyda'r plant am y penwythnos. Daeth tymor yr Aelwyd i ben ar nos Fawrth, Mawrth 27. Diolch yn fawr i John Gwynedd a Dic, ac arweinyddion yr Aelwyd eleni a hefyd Irene Roberts am ei gwaith caled fel Ysgrifenyddes am ddwy flynedd.



*Rhai o aelodau'r Aelwyd yn cael hwyl ym Mlaencwm.*

HAWAII — IAWN DIOLCH — Croeso cynnes yn ôl i Bet Hughes, Dreflan Isa ar ôl iddi dreulio cyfnod o wyliau yn Hawaii. 'Roedd y tywydd yn boeth a'r cwbl oedd raid ei wisgo, yn ôl ei harfer yn Hawaii, oedd bwcê o flodau.

Daeth yn ôl i Fangor ar y trên a bu'n rhaid iddi gael help 'Land Rover' cyn y gallodd gyrraedd adre' trwy'r lluwchfeydd eira.

PEN-BLWYDD HAPUS — Llongyfarchiadau i Mrs Griffiths, Tref Eilian ar ei phen-blwydd yn 80 oed.

MERCHED Y WAWR — Cynhaliwyd y 'Te a Chrempog' brynhawn ddydd Mawrth, Chwefror 27 yn Neuadd yr Eglwys. Er y tywydd garw daeth nifer da ynghyd a gwnaethpwyd elw o £20.

Bydd rhan ohono yn mynd at Gronfa leol yr Eisteddfod Genedlaethol. Enillydd y raffl oedd Mrs Nellie Williams, Betws Garmon.

Bu cystadlu gweddol frwd, rhwng y pedwar tîm yn Eisteddfod Merched y Wawr Cylch Eco'r Wyddfa, yn Ysgol Brynrefail Llanrug ar nos Iau, Mawrth 8. Gwnaeth cangen Waunfawr ei gorau ym mhob eitem, a daethom yn ail ar ddiwedd y noson, gyda Llanrug yn mynd â'r darian. Diolch i'n haelodau am gystadlu a chefnogi'r Eisteddfod, a gobeithir y ceir well lwc y tro nesaf.

Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Iau, Mawrth 22, yng nghwmni Dr. Elrwen Gwynn, a fydd yn siarad am 'Iechyd Trwy Fwyta'.

SEFYDLIAD Y MERCHED — Cynhaliwyd cyfarfod fis Mawrth o'r Sefydliad yn Neuadd yr Eglwys ar nos Iau, Mawrth 1. Diolchodd Mrs Katie Jones, y llywydd i'r aelodau am roi ei henw ymlaen er mwyn iddi fynd yn aelod o'r Pwyllgor Gweinyddol. Rhoddodd longyfarchiadau i Mrs Margaret Owen ar ddyweddïad ei mab. I ddathlu Gŵyl Ddewi gyda'r Sefydliad, y wraig wadd oedd Mrs Wigley Rhoddodd sgwrs ddiddorol ar 'Borthmyn Cymru'. Diolchwyd iddi gan Mrs Missen a Mrs Morgan Jones. Rhoddwyd y blodau ar y bwrdd gan Mrs Morley Williams, a wedyn fe'u rhoddwyd i Mrs Miles ac i Mrs Morfa Evans.

Enillodd Mrs Parry Williams y raffl ac enillydd y gystadleuaeth oedd Mrs Peggy Jones. Cynhelir y cyfarfod fis Ebrill yn yr ysgol ar nos Iau, Ebrill 5, pan fydd Mr Missen yn rhoi sgwrs ar 'Arddio'.

GWOBRAU CLWB CANT — Ionawr — 1. Gwilym Hughes (£8); 2. Mrs Hughes, Gwastadfaes (£4); 3. Mrs Greta Hughes (£2.50). Chwefror — 1. Jenny Jones (£8); 2. John Ellis (£4); 3. Mary B. Davies (£2.50). Mawrth — 1. Iolo Huws Roberts (£8), 2. Marilyn Roberts (£4), 3. Irene Roberts (£2.50)

YSGOL FEITHRIN — Treuliwyd noson hwyliog iawn ym Mhlas Tan Dinas nos Fercher, Mawrth 14 pryd cafwyd swper blynyddol yr Ysgol Feithrin i ddathlu Gŵyl Dewi. Daeth llu o ffrindiau a chefnogwyr ynghyd i'w diddori gan aelodau'r pwyllgor a ffrindiau. Enillwyr y raffl oedd: 1. (£10): Mrs P. Williams, Parc, Waunfawr, 2. (£8): Glenys Griffith, Tŷ'r Ysgol, Cesarea, 3. (£6): John Pritchard Bryniau, Cambria Road, Porthaethwy 4. (£4): Dafydd Whitall, Llanrhaeadr, 5. (£2): Mrs Tilley, Min y Don, Clark Terrace, Caernarfon. 6. (£1): David Falck, 20 Wynnstay Road, Bae Colwyn

Carai'r pwyllgor ddiolch i bawb sydd yn eu cefnogi ar bob achlysur.


**Wavell Roberts**

**CIGYDD**

**LONDON HOUSE**
**LLANRUG**
**Ffôn: Caernarfon 3574**
***PEN CIGYDD Y FRO!***
**Yr ŵyn lleol mwyaf blasus**
**Selsig cartref, cigoedd parod i'w bwyta**
**Archebion ar gyfer y rhewgist**
**MYNNWCH Y GORAU A DEWCH ATOM NI!**

# PENISARWAUN

Dathlwyd Gŵyl ein Nawddsant ddiwrnod yn hwyr eleni, ond daeth nifer dda o rieni i fwynhau'r cyngerdd a roddwyd gan y plant. Diolch am eich cefnogaeth.

UNDEB Y MAMAU – Cafwyd cyfarfod blynyddol Undeb y Mamau nos Lun, Mawrth 6. Cymerodd Mrs G. Williams, y Rheithordy Llanrug y gwasanaeth a hithau oedd yn llywyddu'r cyfarfod. Darllenwyd y fantolen ariannol gan y Trysorydd Mrs O.C. Roberts, a'r cofnodion gan Mrs M. Davies yr ysgrifennydd. Ail-etholwyd y ddwy i'r un swyddi. Mrs B. Mowll yw'r aelod ymaelodaeth newydd. Rhoddwyd y te gan Mrs B. Mowll a Mrs M. Davies. Diolchwyd i Mrs G. Williams am gadeirio. Ar Ebrill 2 bydd y Parchedig Emrys Edwards o Gaernarfon yn dod i siarad gyda'r aelodau.

Bydd Festri'r Pasg nos Wener, Ebril 6 am 7.00 o'r gloch.

DYMUNIADAU – 'Rydym yn dymuno'n dda i Mrs Rowlands sydd wedi ymadael o'r fro i gartrefu gyda'i mab yn Llundain.

LLONGYFARCHWN – Mr a Mrs Tegid Roberts, Arwel ar enedigaeth eu mab, Huw Tegid.

Llongyfarchiadau hefyd i Mr a Mrs G. Roberts, Murillo am fod yn nain a thaid. Ganwyd mab yn ddiweddar i'w merch, Sandra a'i gwr Elfyn P. Jones, Bangor.

PRIODAS – Ein dymuniadau da a phob bendith i Mr a Mrs Bryn Hughes, Tŷ Newydd, Cae Howell ar eu priodas y mis hwn. Byddant yn ymgartrefu ym Methel.

LLONGYFARCHIADAU i Mr a Mrs Pritchard, Pensarn ar fod yn hen daid a hen nain.

ADFERIAD BUAN – i Mrs Katie Jones 9 Bryn Tirion sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

PEN-BLWYDD – Mae Miss Thomas, Craig Dinas newydd ddathlu ei phen-blwydd yn 91 oed. Llongyfarchiadau iddi a phob dymuniad da.

GWELLHAD – 'Dydy Mrs Porter ddim yn dda ers tua thair wythnos. Brysiwch wella Mrs Porter.

MARW – Yn sydyn yn ei gartref ym Methel bu farw Mr Humphrey Williams (Llys Iolen gynt). Un o Benisarwaun oedd Mr Williams a bu'n amlwg iawn yng ngweithgareddau'r pentref. Yr oedd yn ffyddlon i'w gapel a'i fro; yn flaenor yng Nghapel Glasgoed. Bu'n gynghorydd Cyngor Plwyf ac yn gynghorydd ar Gyngor Sir Gaernarfon. Yr oedd yn aelod o bwyllgorau'r pentref i gyd ac yn rheolwr ar yr Ysgol Gynradd. 'Roedd hefyd yn aelod ac yn llywydd Clwb yr Heulwen.

Cydymdeimlwn â'r teulu, ei wraig a'i fab, Mr Ieuan Williams yn eu profedigaeth.

EIRA MAWR – (Mawrth 16–18) – Daeth eira mawr i'r fro a bu'r mwyafrif helaeth o'r ffyrdd ar gau am ddyddiau gyda'r hen bobl wedi eu caethiwo yn eu cartrefi. I wneud pethau'n waeth 'doedd gan rai ardalwyr ddim trydan am dridiau. Un o'r lluwchfeydd mwyaf ym Mhenisarwaun oedd yr un o King heibio Fresh Winds i Meillonydd a Chefn Coed. Bu'r gweithiwr wrthi am fore a phrynhawn yn ceisio agor y ffordd. Cawsom eira bron mor ddrwg yn Ionawr '62, Mawrth '65 a Rhagfyr '67. Ym Mawrth '65 gorfodwyd i lawer o blant Ysgol Brynrefail gysgu yn yr ysgol ar ôl methu â mynd adref. Yr oedd diwedd y mis Mawrth hwnnw yn hynod o braf gyda'r tymheredd yn cyrraedd 73°F.

DYDD GWEDDI BYD-EANG Y CHWIORYDD – Cynhaliwyd gwasanaeth i ddathlu Dydd Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd yng Nghapel Bosra ar Fawrth 2.

Bu'r cyfarfod o dan arweiniad Mrs Eluned Porter, gyda Mrs Nancy Jones, Meillionydd yn cyfeilio. Mrs Percy Williams roddodd yr anerchiad. Yr oedd amryw o chwiorydd yr ardal yn cymryd rhan yn y gwasanaeth, yn eu plith: Mrs Jennie Williams, Cae Corniog; Mrs Eirlys Jones, Mrs Betty Rees Hughes; Mrs Eluned Jones, Cae Corniog; Mrs Mary Davies; Mrs K. Williams; Mrs Jennie Jones; Mrs Green a Mrs Larsen.

Daeth cynulliad ynghyd a chafwyd cyfarfod gweddi bendithiol.

DYMUNIADAU DA – i Mr Williams J. Jones, 13 Bryntirion sydd wedi bod yn wael. Brysiwch wella. Mae 'r pentref yn dymuno adferiad buan iawn iddo.

SEFYDLIAD Y MERCHED (Mawrth 27 Chwefror) – Cafwyd noson ddiddorol iawn pan ddaeth Mrs Eunice Jones, Rhiwlas at yr aelodau i drafod y grefft o osod blodau.

(Mawrth 1af) – I ddathlu Gŵyl Ddewi aeth yr aelodau i Westy Castell Cidwm lle cawsant noson arbennig o dda.

(Mawrth 8) – Aeth tîm dartiau Sefydliad y Merched i Gaernarfon, a daethant yn ôl wedi llwyddo i ddod yn gyfartal â thîm o Gaernarfon. Mae'r gangen, ac yn wir y pentref i gyd, yn anfon eu cydymdeimlad â Mrs E. Roberts, 12 Llys y Gwynt yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd-yng-nghyfraith yn Llanrug.

GENEDIGAETH – Llongyfarchiadau i deulu Hafan ar enedigaeth eu mab bychan.

PWYLLGOR EISTEDDFOD – 'Rydym yn ddiolchgar iawn i nifer o gyfeillion am eu rhoddion caredig tuag at yr Eisteddfod yn ddiweddar. Oherwydd eu haelioni mae'r pwyllgor mewn sefyllfa i gyhoeddi mai dim ond tua £60 sydd eisiau arnom bellach i gyrraedd ein nod. A wnaiff unrhyw un arall sydd yn bwriadu cyfrannu, sicrhau bod eu cyfraniad yn nwylo'r pwyllgor cyn diwedd Ebrill os gwelwch yn dda.

Mawr yw ein dyled a'n diolch hefyd i Miss Phyllis Ellis a Mrs Delyth Williams am drefnu nosweithiau o werthu dillad ac offer 'stainless steel' yn eu cartrefi, gan drosglwyddo'r elw i'r Pwyllgor. Diolch i'w hymdrechion mae tuag £20 wedi'i ychwanegu at gyfanswm ein casgliadau.

'Rydym wedi aildrefnu'r noson 'Cawl a Chân'. Cynhelir y 'Cawl a Chân' rwan ar nos Fawrth, Ebrill 3, yn yr Ysgol Gynradd am 6.30 p.m. Cofiwch y bydd Edward Morus Jones yn ymuno â ni gyda chân neu ddwy, a bydd y plant hefyd yn ein diddanu. Dewch yn llu i'n helpu i gyrraedd y nod ddechrau Ebrill.

Ddechrau Mawrth bu dwsin o blant yr ysgol yn bwrw'r Sul yng Ngwersyll yr Urdd, Glanllyn. Cawsant gwmni plant ysgolion Dolbadarn a Llanrug hefyd.

Treuliodd chwech o'r plant sy'n dysgu'r Gymraeg fel ail-iaith, sef Paula, Alison, Martin, Daniel, Patrick a Michael, wythnos ar gwrs yn y Coleg Normal, yng nghwmni Mrs G. Hywyn, Athrawes Bro y cylch.

Treuliodd aelodau'r Urdd orig ddifyr yn edrych ar sleidiau a ddangoswyd gan Mr William Jones, Croesor, sy'n Warden gyda'r Cyngor Gwarchod Natur.

**CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR**


## EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CAERNARFON A'R CYLCH 4–11 AWST 1979

### ATYNIADAU'R WYTHNOS

**Dydd Sadwrn, Awst 4, 9.00 a.m. ymlaen**
Agor yr Eisteddfod – Gŵyl y Bandiau Pres – 7.30 p.m. Cyngerdd: Band Pres Cenedlaethol Cymru; Côr Meibion Unedig; Anne Edwards (Soprano)

**Dydd Sul, Awst 5, 9.30 a.m.**
Gwasanaeth Undebol. 7.30 p.m. Cyngerdd: Ffantasi i Gôr (Beethoven) gyda Cherddorfa'r BBC a Chôr yr Eisteddfod; Peter Katin (pianydd);
Arweinydd Gwadd: David Lloyd Jones

**Dydd Llun, Awst 6, 9.00 a.m. ymlaen**
Cystadlaethau Plant a Chorau Cymysg; 7.30 Cyngerdd; Cerddorfa'r BBC; Peter Katin (Pianydd); Arweinydd Gwadd: David Lloyd–Jones
DRAMA: Ysgol Syr Hugh Owen – Cwmni'r Ysgol yn cyflwyno 'Ar Hirnos Gaea' – Shakespeare (Cyf. Iolo Huws-Roberts)
DRAMA: Theatr Seilo – Cwmni'r Eisteddfod yn cyflwyno 'Yr Adduned' gan John Gwilym Jones
DRAMA: Theatr Gwynedd – Cwmni Theatr Cymru – 'Hywel A' gan Huw Roberts

**Dydd Mawrth, Awst 7, 9.00 a.m. ymlaen**
Yr Orsedd; Cystadlaethau Plant ac Ieuenctid; Seremoni Coroni'r Bardd; 7.30 p.m. CYNGERDD PLANT YSGOLION CYNRADD
Cyflwyniad o 'Dyma Feibl...' – Cynhyrchydd Clive Roberts
DRAMA: Fel Nos Lun

**Dydd Mercher, Awst 8, 9.00 a.m. ymlaen**
Cystadlaethau lleisiol; Corau; Seremoni'r Prif Lenor; 7.30 CYNGERDD: Cerddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru–Arweinydd: Arthur Davison
DRAMA: Fel Nos Lun

**Dydd Iau, Awst 9, 9.00 a.m. ymlaen**
Yr Orsedd; Cerdd Dant; Adrodd; Seremoni Cadeirio'r Bardd; 7.30 p.m. CYNGERDD: Messe Solennelle (Rossini) gyda Chor yr Eisteddfod,
Arweinydd: John Huw Davies; Eirian Davies; Maureen Guy; John Mitchinson a Delme Bryn Jones
DRAMA: Ysgol Syr Hugh Owen – Cystadlaethau Drama
DRAMA: Theatr Seilo – Cwmni'r Adran Ddrama, Aberystwyth
DRAMA: Theatr Gwynedd – Cwmni'r Coleg Normal – 'Pros Kairon' gan Huw Lloyd Edwards

**Dydd Gwener, Awst 10, 9.00 a.m. ymlaen**
Rhuban Glas Ieuenctid; Alawon a Dawnsio Gwerin; Seremoni Croesawu'r Cymry ar Wasgar; 7.30 p.m. CYNGERDD IEUENCTID:
Dido ac Aeneas (Purcell) – Cynhyrchydd: John Ogwen; Arweinydd: John Huw Davies
DRAMA: Fel Nos Iau

**Dydd Sadwrn, Awst 11, 9.00 a.m. ymlaen**
Cystadlaethau Tlws David Ellis; Corau Meibion; Eisteddfod fin nos, 7.30 p.m.
DRAMA: Fel nos Iau

**Nos Sul, Awst 12, 8.00 p.m.**
Cymanfa Ganu – Detholiad ar werth ar y maes

**Atyniadau eraill:** Y Babell Lên; Y Theatr Fach; Celf a Chrefft; Pabell y Gwyddonwyr; Pabell y Dysgwyr; Pabell y Cymdeithasau
**I Blant:** Meithrinfa a rhaglenni arbennig

*Brysiwch – mae tocynnau eisoes yn brin ar gyfer llawer o'r atyniadau uchod*

# DEINIOLEN



PRIODAS — Llun Mr Eifion Wyn Roberts, mab Mr a Mrs E.H. Roberts, 23 Cae'r Saint, Caernarfon a Miss Siân Wyn Williams, merch Mr a Mrs E.W. Williams, 6 Ffordd Deiniol ar ôl eu priodas yn Swyddfa Cofrestru Caernarfon yn ddiweddar. Rhoddwyd y briodferch i'w gŵr gan ei thad. Y forwyn oedd Miss Nia Ann Williams, (chwaer y briodasferch). Cefnder y priodfab, Mr Norman Binfield, oedd y gwas. 'Roedd y wledd briodas yng Ngwesty'r Eryrod, Caernarfon, gydag adloniant i ddilyn gan yr 'Outlaws'.

DIOLCH — Dymuna Siân ac Eifion Wyn Roberts, 6 Ffordd Deiniol, ddiolch o galon i'w perthnasau, cymdogion a ffrindiau am yr anrhegion gwerthfawr ac arian a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas.

MARWOLAETH — Drwg oedd gennym fel ardalwyr glywed am farwolaeth sydyn Mr Huw Roberts, 25 Hafod Olau ar Mawrth 16. a hefyd Mr John Peris Jones, 10 Ffordd Deiniol a fu farw yn ysbyty Môn ac Arfon Bangor ddydd Sadwrn, Mawrth 17.

Cydymdeimlwn yn fawr â'r ddau deulu yn eu colled.

LLONGYFARCHIADAU — i Buddug a Barry Thomas, 5 Rhydfadog ar enedigaeth eu mab, Michael Dwayne, brawd bach i Paula a Linda.

GWAELEDD — Mae llawer o'r pentrefwyr yn wael yn yr ysbytai ym Mangor a Chaernarfon, ac eraill yn gaeth i'w cartrefi. Dymunwn adferiad llwyr a buan iddynt oll.

DIOLCHIADAU — Dymuna Mrs Helen Wyn Jones, Rhydfadog ddiolch yn ddiffuant i'r meddygon a'r gweinyddesau yn Ward Llawfeddygol Isaf Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor am eu gofal caredig ohoni yn ystod ei harhosiad yno yn ddiweddar. Dymuna hefyd ddiolch i'w theulu a chyfeillion am y llu cardiau, anrhegion a dymuniadau da, ac i bawb am eu cymorth parod gyda thrafnidiaeth i'w gŵr.

Yn ystod ei hahosiad cafodd Helen fwynhad mawr o glywed Seindorf Arian Deiniolen yn chwarae'r ymdeithgan 'Fron Deg' ar dâp a wnaethpwyd gan Radio C. & A. Mae'r gwasanaeth yma o chwarae recordiau, ac anfon cyfarchion i unrhyw un yn yr ysbyty yn cael ei wneud yn wirfoddol ac os oes rhywun yn dymuno manteisio ar y cyfle hwn cysyllter â Radio C. & A. Rhif ffôn: Bangor 51414.

YSGOL GWAUN GYNFI — Cafwyd noson o 'Gawl a Chân' yn Ysgol Gwaun Gynfi nos Fercher, Mawrth 21, a gwnaethpwyd elw o £112 at gostau mynd â Pharti Cân Actol o'r Ysgol i'r Royal Albert Hall ar Fehefin 25. Bydd y parti yn cymryd rhan mewn Cyngerdd Ryngwladol fel rhan o weithgareddau yr 'International Year of the Child.' Cymerwyd rhan gan Barti Glynrhonwy, dan arweiniad Mr Ted Morris, Scet Merched y Wawr Deiniolen, Mrs Gladys Evans yn adrodd a Thriawd Cynfi yn canu. Mrs Helen Lewis oedd cyfeilydd y noson, a'r arweinydd oedd Mrs Betty Pierce Jones, y Felinheli. Trefnwyd yr adloniant gan Mrs Lona Lewis. Hoffwn ddiolch yn gynnes i bawb a weithiodd i wneud y noson yn llwyddiant, er gwaethaf y tywydd mawr.

PÊL-DROED — Dadebrwyd diddordeb y pentref yn nhîm y bechgyn dan 15eg oed fel canlyniad i'w llwyddiant diweddar yn ennill Cwpan Bernard Wardle am yr ail flwyddyn yn olynol. (Gweler adroddiad a llun yr hogia' ar y dudalen ôl.) Sefydlwyd pwyllgor i gefnogi'r ddau fu'n weithgar o blaid y tîm am flynyddoedd, sef Elfed Williams a Gwilym Williams, ond fel ym mhob achos o'r fath y mae angen mwy o weithwyr. Os oes diddordeb gan unrhyw un mewn helpu'r hogia', yna ymunwch â'r pwyllgor, cysylltwch ag un o'r canlynol: Frank Owen, Vernwy House (cadeirydd); Keith Bingham, 3 Tan y Foel (ysgrifennydd); Robin Evans, 12 Hafod Olau, trefnydd cronfa); Gwilym Williams, 22 Hafod Olau (trysorydd); Elfed Williams, 77 Pentre Helen (rheolwr); Olive Allen, Glyn Allen, John Jones, Arthur Owen, Bryn Hughes neu Huw Roberts.



*Mr Bobby Haines, Cadeirydd Cyghrair Gwyrfai yn cyflwyno Cwpan Bernard Wardle i gapten Deiniolen, Euryn Owen.*

APÊL GWAUN GYNFI — Cafwyd gwledd arbennig yn Ysgol Gwaun Gynfi nos Wener, Mawrth 2, pan gynhaliwyd Cyngerdd Brethyn Cartref dan arweiniad y Parch. Trefor Lewis. Cyfranwyd i'r Cyngerdd gan ddoniau ifainc y pentref, a bu'r noson yn gyfle i'r rhai hŷn yn y gynulleidfa eistedd yn ôl i fwynhau'r talentau disglair oedd yn cael eu cyflwyno.

Oherwydd gerwinder y tywydd gohiriwyd y Disgo oedd i'w chynnal ar Mawrth 22,(bydd cyhoeddiad mewn llawn bryd pan fo dyddiad newydd wedi ei bennu.)

Pwysir eto am gefnogaeth i ddarlith y Parch. John Alun Roberts, sydd i'w chyflwyno am saith o'r gloch, nos Fercher, Ebrill 4 yn Ysgol Gwaun Gynfi. Mae darlith Mr Roberts ar y testun 'Chwalu' yn enwog trwy Gymru bendaladr, a bydd Cwmni Sain yn bresennol ar y noson uchod i recordio'r ddarlith yn cael ei thraddodi.

MERCHED Y WAWR — Nos Lun, Chwefror 26 cyfarfu Merched y Wawr. Cafwyd noson ddifyr yng nghwmni Mr Henry Lloyd Owen, Caernarfon yn sôn am 'Fyd yr Anifail'. Croesawyd ef gan Mrs Dilys Hughes, y llywydd. Dymunodd yn dda i'r aelodau oedd wedi bod yn cwyno. Gwestwragedd y te oedd Miss Kathleen Jones, Mrs Sera Jones, Mrs Margaret Thomas a Mrs Gwladys Jones. Enillwyd y raffl gan Miss Elinor Jones.

DIOLCH — Dymuna Mark Thomas, 35 Rhydfadog ddiolch i bawb am eu caredigrwydd tra bu'n cael triniaeth lawfeddygol yn ysbyty Alder Hey Lerpwl.

CROESO ADREF — am dair wythnos o wyliau i Mr a Mrs J.A. Peters, 223 Victor Avenue, Toronto, Ontario, Canada a'u tri plentyn, Scott, Penny, Robert Hudson. Merch Mr a Mrs Bobby Woodcock, 15 Maes Gwylfa, Clwt-y-bont.

Mae'r teulu yn cael copi o'r *Eco* bob mis ac mae diddordeb mawr ganddynt yn ei ddarllen.

Croeso adref am seibiant i'w chwaer hefyd, sef Joan a'i mab Martin. Maent hwythau yn darllen yr *Eco* yn Warminster.

Yn y llun mae Mr a Mrs Woodcock, 15 Maes Gwylfa, John ac Audrey a'r tri plentyn bach, Scott, Penny a Robert Hudson o Canada. Joan a'i mab Martin o Westminster a hefyd Dawn Woodcock, 2 Maes Gwylfa. Mae tair cenhedlaeth yn y llun.



## MWY O FIRI 'STEDDFOD MERCHED Y WAWR

Y CYHOEDDI



TIN-DROI





*Sgets Merched y Wawr Deiniolen.*


YN EISIAU

**Hen Lyfrau Cymraeg**

Pob peth newydd ar gael fel arfer

LLYFRAU — RECORDIAU — CARDIAU

**SIOP Y PENTAN**

YR HEN FARCHNAD, STRYD Y PALAS

CAERNARFON (Ffôn: 5262)

# Llannerch Y Llenor

gan SELWYN GRIFFITH

**CEFAIS y fraint droeon o gadeirio bardd "yn wyneb 'trydan', llygaid goleuni", ond yn Eisteddfod Marian Glas, Môn eleni cefais y profiad bythgofiadwy o weinyddu'r seremoni traddodiadol "yn wyneb golau cannwyll".**

Cafwyd trafferthion annisgwyl hefo'r cyflenwad trydan yno, ond rhaid oedd symud ymlaen i gadeirio'r bardd. Fel 'roedd hi'n digwydd, tlws cadair a roddwyd i'r bardd, a'r tlws a gynigiwyd eleni oedd 'candlabra'. Wn i ddim a oedd cyfeillion Marian Glas wedi rhagweld y trafferthion trydanol ai peidio, ond fe gafwyd "heddwch" i'r alwad "a oes t'wllwch?", ac fe orseddwyd y bardd yn hedd yr eisteddfod a'r candlabra oleuedig ar ei lin.

"Seremoni ddramatig," meddai un eisteddfodwr ffyddlon wrtha'i ar derfyn y 'steddfod, "fe ddylid ei gynnal yng nghysgodion golau cannwyll bob tro". Pwy a ŵyr nad seremoni fel hyn a geir ym Marian Glas yn y dyfodol!

'Steddfod gwbl wahanol ei naws oedd y Steddfod Ryng-Golegol a gynhaliwyd ym Mangor eleni. Marathon o Steddfod a barhaodd i mi o naw fore Sadwrn hyd hanner awr wedi dau fore Sul. Er yr holl sŵn a'r miri, 'roedd yno gystadlu brwd a'r safon yn uchel iawn.

Manteisiodd disgyblion Ysgol David Hughes, Porthaethwy ar y cyfle i werthu eu cylchgrawn ysgol 'Cyfle' ar y diwrnod y cynhaliwyd Eisteddfod yr Urdd yno yn ddiweddar. Carwn eu llongyfarch yn gynnes ar gynnwys y cylchgrawn, yn gerddi ac erthyglau, a sibrwd gair o awgrym yng nghlustiau disgyblion Ysgol Brynrefail yr un pryd – "Beth am gylchgrawn ysgol?"

'Roedd 'Steddfod Merched y Wawr, Bro'r Eco yn fenter lwyddiannus. Fel y crybwyllais fwy nag unwaith yn y golofn hon, mae wedi bod yn freuddwyd gen i er pan sefydlwyd *Eco'r Wyddfa*, i weld cychwyn Steddfod Bro'r Eco. Os gwn i a gychwynnwyd gwireddu'r breuddwyd hwnnw yn Ysgol Brynrefail ddechrau'r mis 'ma? Mawr hyderaf ar ôl i Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon fynd heibio y gwelwn ni gychwyn Steddfod o safon ym Mro'r Eco.

Diolch yn fawr i chwi Miss Catherine Mary Rowlands, Lleifior, Llanrug am eich gair o deyrnged i'r ddiweddar Brifardd Dilys Cadwaladr. Bydd, yn sicr, mi fydd 'na le gwag ar ei hôl yng Ngorsedd y Beirdd. Cofiwn ei chysylltiad agos â'r fro hon. Mae'r dystysgrif a gafodd pan enillodd y Goron Genedlaethol ym Mhrifwyl y Rhyl i'w gweld yn Festri Capel Brynrefail. Mae'n amlwg i mi Miss Rowlands, eich bod chwi a'r Prifardd yn gyfeillion mynwesol.

**ER COF AM DILYS CADWALADR**

**Colled yw colli cyfaill**
**Amdani y mae hiraeth**
**Pob llygaid sydd yn llaith**
**A cholled i'r farddoniaeth.**

**Dysgu ei disgyblion**
**A wnâi mewn gwahanol ysgolion;**
**Diolch am ei llafur ffyddlon,**
**Heddwch fo i lwch hon.**

Croeso i chi unwaith eto, Mr John V. Morris, Clwt-y-bont. 'Does angen dweud dim am eich cerdd "Chwyldro", mae'r neges yn glir ynddi.

**Y CHWYLDRO**

**Mae craith ar ddwylo'r gweithiwr,**
**A chwmwl dros y tlawd,**
**A'r Sais yn llywodraethu,**
**A'r werin dan ei fawd.**

**O'r Ghetto rhaid yw codi,**
**I ddangos i bob un,**
**Bod Cymru'n medru sefyll**
**Ar ben ei thraed ei hun.**

**Diosgwn y cadwynau,**
**Anghofiwn y sarhad,**
**Daeth chwyldro cenedlaethol,**
**I newid bywyd gwlad.**

**Os daliwn ati'n brydlon,**
**A gweithio gyda ffydd;**
**Fe welwn eto obaith,**
**Cael Cymru'n Gymru rydd!**

**I'r gad yr awn yn ffyddlon,**
**Ac arfau yn ein llaw;**
**I sefyll oll mewn undeb,**
**A chadw'r gelyn draw.**

**Arloeswn oll yn erbyn,**
**Prydeindod cras y Cwîn;**
**Drwy siarad iaith ein tadau,**
**Yn wlatgar ar ein min.**

*John V. Morris.*

Diolch i chwithau Enid Jones, Talysarn am y gerdd goffa i'r diweddar gyfaill Mr Humphrey Williams. Mae fy nyled yn fawr i Humphrey. Fo berswadiodd fi, (yn wir, fo orfododd fi) i fentro i fyd beirniadu adrodd am y tro cynta' 'rioed. Eisteddfod fach leol yn Ysgol Penisarwaun oedd hi, a chofiaf fel ddoe fel y bu i mi fynd yno yn hynod o nerfus a phryderus ar gefn beic. A bod yn onest bu bron i mi â throi'n ôl wrth 'Charlie Bridge'. Diolchais droeon am i mi fentro'r noson honno, gan i mi gael oriau lawer o fwynhad mewn eisteddfodau ledled Cymru ar ôl y mentro cynta', sawl blwyddyn yn ôl bellach, ym Mhenisarwaun.

Cefais y fraint o gydweithio am flynyddoedd hefo Humphrey ar Gyngor Plwyf Llanddeiniolen hefyd. Chwith meddwl iddo'n gadael ni mor sydyn. Dyma gerdd goffa Enid Jones iddo. Mae rheswm arbennig dros roi testun 'Y Gloch' ar y gerdd.

**Y GLOCH**

*(Er cof am y diweddar Humphrey Williams, Bethel, a fu farw'n ddisymwth ddechrau Mawrth 1979.)*

**Bu'n ffyddlon hyd ei fywyd**
**I alwad Cloch y Llan,**
**Ac nid oes neb all wadu**
**Na wnaeth efe ei ran.**

**I'r bregeth âi yn brydlon,**
**A'r Seiat, noson waith;**
**Helpu'r achosion gweiniaid**
**Er bod y ffordd yn faith.**

**Llywydd Cyfarfod Misol –**
**Ca'dd lawer achos trist**
**O gau addoldai bychain**
**Fu gynt yn frwd dros Grist.**

**'Rwy'n cofio'r ymgom rhyngom**
**Am gloch yr Ysgol Sul –**
**Fu'n annog plant yr ardal**
**I droedio'r llwybr cul.**

**Ymhen ychydig ddyddiau**
**Fe ganodd Cloch y Nef,**
**I alw y gŵr hynaws**
**I'w wobr, ato Ef.**

*Enid Jones,*
*Bryn Gelli, Talysarn.*

Diolch i bawb arall am anfon cerddi. Fe ddaw eu tro.
Hwyl,
Selwyn.

## CASGLU PAPUR I GAEL CAE CHWARAE

**Mae ugeiniau o ardalwyr Llanrug a chyfeillion mewn ardaloedd eraill wedi bod yn cyfrannu'n hael i Gronfa Datblygu Pwll Moelyn dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mewn amser pan mae pawb yn edrych yn llygad y geiniog peth braf yw dweud nad yw'r cywaith wedi costio dim arian, gan mai hen bapurau newydd, cylchgronau a cherdyn oedd y cyfraniad.**

**Cesglir y papur ar fore Sadwrn cyntaf o bob mis gan aelodau o'r pwyllgor a'i gludo i ysgubor lle y bwndelir y papurau a'u clymu.**

**Pan fydd llwyth sylweddol wedi ei gasglu daw'r lori i'w nôl a chaiff y papur wedyn ei ail-brosesu i'w ddefnyddio unwaith eto. Ceir oddeutu 8 i 9 punt y dunnell am y papurau nawr, sydd yn union hanner yr hyn a dderbyniwyd ar gychwyn yr ymgyrch. Golyga'r ymgyrch waith caled i griw bach o wirfoddolwyr ond mae arian a gesglir yn hwyluso'r gwaith mawr o ddarparu cae chwarae a gerddi a seddau ar dir oedd unwaith yn ddolur llygad.**




*Tua saith tunnell o bapur ar ei ffordd i gael ei ail brosesu.*

## TRADDODIAD YN PARHAU

**Dangoswyd brawdgarwch traddodiadol ardal y chwareli yn Llanberis yn ddiweddar pan gasglwyd £5,000 yng Ngwaith Dŵr Dinorwig ar ôl damwain angheuol. Bu farw Mrs Blodwen Roberts ar ôl cael ei tharo gan gar wrth iddi fynd i'r gwaith. Penderfynodd meibion Mrs Roberts y byddant yn cyfrannu rhan fwyaf o'r arian i Uned Arennau mewn ysbyty yn y Rhyl ar gyfer prynu Peiriant Arennau. Rhoesant y gweddill o'r arian i Ysgol Pendalar, – ysgol i blant â nam meddyliol yng Nghaernarfon – i ddechrau cronfa ar gyfer cael pwll nofio arbennig.**


# Gwesty Dolbadarn

Tŷ Rhydd-Feddiant

## Llanberis

FFÔN : LLANBERIS 277

Perchennog Aneuryn Jones

**MAN DELFRYDOL I BARTI PRIODAS NEU GINIO BLYNYDDOL**



Hefyd
CANOLFAN DRECIO
Holwch am ein
telerau rhesymol

# Bethel

Y CARNIFAL – Nos Wener, Mawrth 16, er y tywydd garw cynhaliwyd Disgo yn y Neuadd gan Bwyllgor y Carnifal. Yn ystod y disgo fe dynnwyd enwau Brenhines y Carnifal a'r Lord Chamberlain a'r Lady in Waiting allan o het gan Mr Deiniol Williams. Y Frenhines yw Diane Vize, Cefn Rhos gyda Manon Williams, 4 Tan y Cae yn Lord Chamberlain a Helen Jones, 5 Eryri yn Lady in Waiting.



BEDYDDIO – Brynhawn Sul, Chwefror 25 ar ôl yr Ysgol Sul yng Nghapel Cysegr bedyddiwyd Gwenan, merch fach Mr a Mrs Geraint Elis, Sycharth gan y gweinidog, Mr W.R. Williams.

EISTEDDFOD CAERNARFON A'R CYLCH – Enillwyr y Clwb Cant am y mis oedd: 1. Mrs Beti Owen, Crud yr Awel: £20; 2. Mr Brian Williams, Cefn Rhos: £10; 3. Mr. W.T. Owen, Brynteg a Mr S.O. Hughes, 3 Tan y Cae: £5 yr un.

LLONGYFARCHIADAU – i Delyth (gynt Parry) Monarfon ar gyrraedd dy 21ain mlwydd oed ar Fawrth 22. Oddi wrth Mam, Dad a Carys.

YR ECO YN NEFADA – Yn rhifyn Chwefror o'r *Eco* fe welwyd llun o'r Eco gyda mynyddoedd Nevada'n gefndir iddo. Tynnwyd y llun gan Mr John Musgrove, brodor o Frynsiencyn sydd yn byw yn Salt Lake City ers deng mlynedd ar hugain. Bu Mr Musgrove yn gweithio yn chwarel Dinorwig am gyfnod ac mae'n dal i gadw cysylltiad â'r ardal ac yn derbyn yr *Eco* bob mis. Mae'n nai i'r gantores enwog Leila Megan.

Pan adawodd y chwarel fe aeth i Lundain ar gefn beic i chwilio am waith. Yno y cyfarfu ei wraig. Aethant wedyn o Lundain i Salt Lake City i fyw.

LLONGYFARCHIADAU – i Mr a Mrs Huw Hughes, 17 Cremlyn ar ddathlu eu priodas ruddem ar Chwefror 25. Priodwyd Mr a Mrs Hughes ddeugain mlynedd yn ôl gan y Parch. J.T. Hopwood yng Nghapel Nasareth.

CYDYMDEIMLO – Dydd Gwener, Mawrth 9 yn 67 mlwydd oed, bu farw Mr Humphrey Williams, Gwylfa. Symudodd Mr a Mrs Williams i fyw i Fethel o Benisarwaun dair blynedd yn ol. 'Rydym yn estyn ein cydymdeimlad i'r teulu yn eu profedigaeth.

CLWB Y RHOS – Nos Lun Mawrth 12 cynhaliwyd cyfarfod olaf y tymor o Glwb y Rhos. Ar ddechrau'r cyfarfod cydymdeimlwyd â'r cadeirydd, Mr Ieuan Williams, yn ei brofedigaeth o golli ei dad. 'Roedd y noson yng ngofal Mr Ronie Hughes, Seion. 'Roedd Mr Hughes wedi trefnu i Mr Richard Hughes, y Felinheli i annerch y Clwb. Diolchwyd i Mr Hughes gan Mr Alwyn Williams.

Swyddogion y Clwb am y flwyddyn nesaf fydd: Cadeirydd: Mr Geraint Elis, Is-gadeirydd: Mr S.O. Hughes, Trysorydd: Mr Dafydd Williams, Ysgrifennydd: Mr J.E. Thomas.

Nos Sadwrn Mawrth 31 bydd Cinio Blynyddol y Clwb ym Mhlas Tan Dinas gyda'r Parch. Gwilym Parry, Llanfairfechan yn ŵr gwadd.

MERCHED Y WAWR – Yn ystod y mis bu'r gangen leol o Ferched y Wawr yn Theatr Gwynedd yn gweld perfformiad Cwmni Theatr Cymru o 'Esther'. Nos Fercher, Mawrth 14 cynhaliwyd y Cinio Gŵyl Ddewi yng Ngwesty'r Victoria, Llanberis, gydag aelodau o gangen Llanrug yn gyfrifol am yr adloniant ar ôl y cinio. Yn y cinio cydymdeimlwyd â'r cadeirydd Mrs Williams, yn ei phrofedigaeth.

Llongyfarchiadau hefyd i barti o'r gangen ar gael y wobr gyntaf am gydadrodd yn Eisteddfod Merched y Wawr a gynhaliwyd yn Ysgol Brynrefail Llanrug.

YN GWLLA – Mae'n dda gennym weld fod Gwen Jones, y Fachell a Miss Menna Deulyn Williams, Minffordd yn gwella ar ôl bod yn wael ac yn yr ysbyty yn ddiweddar. Mae nifer o'r pentre wedi bod mewn ysbytai yn ddiweddar. Dymunwn wellhad buan iddynt.

YN 18 OED – Llongyfarchiadau i Dewi W. Williams, Bro Hedd, Seion ar gyrraedd ei ben-blwydd yn 18 oed ar Fawrth 19.

CYDYMDEIMLO – Yn gynnar fore Sadwrn, ym Mhlas Gwilym Penygroes bu farw Taid Glan Gors, Mr R.O. Williams, Tyddyn Bach gynt. 'Roedd Mr Williams yn 91 mlwydd oed. Bu'r angladd ym mynwent Tai Duon, Pant Glas ddydd Mawrth, Mawrth 27 gyda'r Parch. W.J. Thomas a'r Parch. W.R. Williams yn gweinyddu.

Mae'n cydymdeimlad gyda'r teulu yn eu profedigaeth.

# CEUNANT

DIOLCH – Dymuna Mrs J. Jones, Tŷ Uchaf ddiolch i bawb am yr anrhegion, cardiau a llythyrau a dderbyniodd oddi wrth gyfeillion yn ystod ei harhosiad yn yr ysbyty.

## O'R GENEDLAETHOL

### ANGEN MWY O LE

**Y mae peth pryder yng Nghaernarfon nad oes digon o letyau ar gael i eisteddfodwyr – yn enwedig yng nghanol y dref ei hun.**

**Dywedodd Mrs Nerys Williams, Ysgrifennydd y Pwyllgor Llety a Chroeso fod cryn alw am leoedd aros mor agos â phosibl i faes yr Ŵyl ond nad oes lleoedd ar gael yno.**

**Dylai unrhyw un sy'n awyddus i letya ymwelwyr â'r Steddfod gysylltu â Swyddfa'r Eisteddfod.**

### MAUREEN GUY YN Y DRE

Bydd Maureen Guy, y mezzo soprano o Benclawdd ger Abertawe yn canu gyda'i gŵr yng nghyngerdd nos Iau yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaernarfon fis Awst.

Bydd Maureen a'i gŵr, y tenor John Mitchinson, yn ymddangos mewn cyngerdd gyda Chôr yr Eisteddfod. Cyfansoddwyd y gwaith – nid ar gyfer cerddorfa – ond ar gyfer dau biano a harmonium. Bwriedir perfformio'r gwaith gan ddilyn y sgôr gwreiddiol ond gydag organ yn lle harmonium.

Y mae Maureen Guy yn enwog ar hyd a lled y byd a bu'n brif fezzo soprano Opera Frankfurt am ddau dymor ym 1972 ac ym 1976 'roedd yn gantores wadd gyda Chwmni Opera Cenedlaethol Cymru.

### *GWOBRAU BANDIAU*

*Derbyniodd Swyddfa'r Eisteddfod yng Nghaernarfon siec am £300 gan y Cyngor Prydeinig yr wythnos diwethaf – sef y gwobrau yng nghystadleuaeth Dosbarth A Adran y Bandiau.*

*Yn ogystal â'r gwobrau ariannol, o £150, £90 a £60, cynigir Cwpan Tiriogaethwyr Sir y Fflint yn yr un gystadleuaeth.*

# YR HARMONIYM YN DOD ADRA

**RHYFEDD meddwl fod yr 'Harmoniym' honno y rhoddodd T. Rowland Hughes bennod gyfan i sôn amdani yn *O Law i Law* wedi cyrraedd yn ei hôl i'w hen gynefin ar ôl yr holl flynyddoedd.**

Ei symud i festri'r capel wnaeth "John Davies" arwr y nofel ar ôl marw ei fam a'i dad. "Angorfa" oedd lleoliad y nofel a chartref yr arwr. Penderfynodd John Davies rannu a gwerthu rhai o gelfi a dodrefn y tŷ. Dyma ddywed wrth fyfyrio ar ôl symud: "Ond yr harmoniym sydd fwyaf yn fy meddwl heno. Y mae'r mur gyferbyn â mi yn edrych yn rhyfedd hebddi, er i Meri Ifans osod bwrdd bach i gymryd ei lle o dan y cloc.

Yno, o dan y cloc, yr wyf yn ei chofio, ac os byddai fy nhad yn y tŷ, dyna lle byddai ei het galed wedi ei tharo ar gongl yr offeryn. Ganwaith y clywais fy mam yn dweud y drefn wrth symud yr het oddi yno, a'i rhoi i hongian yn y lobi... 'I be' arall mae hi'n dda?' fyddai ei ateb i mam bob tro. 'Does neb yn canu'r hen beth'.

Ac nid oedd neb yn ei chanu. Sut y daeth hi yma, ni wn, oni feddyliodd fy nhad, pan oeddwn i'n fychan, y buasai harmoniym yn gwneud cerddor ohonof."

Penderfynodd ei dad gael gŵr o'r enw Huw Ffowcs draw i'r tŷ i'w ddysgu i ganu'r harmoniym, neu yn ôl T. Rowland Hughes "i ddangos i ti sut i roi'r wagan ar yr haearn."

Beth oedd yr arbenigwr, Huw Ffowcs, yn feddwl o'r harmoniym?

"Diawcs mae'r hen harmonia 'ma'n edrach yn dda gynnoch chi Ydi wir."

Rhoes ei droed ar y droedlath a dechreuodd ei fysedd ganu emyn, un o'r ugain a wyddai.

"Diawcs, ond oes gynni hi sŵn hyfryd? Oes wir, 'MERICAN, Robat Davies... ... Ia 'Merican. Dim byd tebyg iddyn nhw. 'Merican sy' gin inna adra. Wil John bach, tyd imi gael gweld be fedrwn i 'i wneud'. A rhoes wên a winc arnaf."

Dyna un o'r dodrefn yn ôl yn Angorfa beth bynnag, trwy garedigrwydd Miss M. Jones, East Lynne, Llanberis.

Ysgwn i ydi'r gweddill o'r gêr ar gael yn rhywle? Ysgwn i faint o'r gêr ddaw adra 'nôl?



*Dyma hi – mewn cyflwr reit dda ac ystyried ei hoed.*


**E.W.&M.WILLIAMS**



Y BECWS
DEINIOLEN
FFÔN : LLANBERIS 232

**BARA FFRES – TEISENNAU BLASUS !**


*(Rydym yn arbenigo mewn teisennau Priodas)*

***

**DOSBARTHWN BOB LLUN, MERCHER A GWENER YN NEINIOLEN, DINORWIG, FACHWEN**

# YR WYDDFA






### Y TRAFFIG CYNNAR

*Dau lun yn gysylltiedig â chludiant cynnar, cynnar. Y 'Guide and Pony'. Y llun cyntaf yw un o'r eiddo y Cynghorydd Gwyndaf Jones, Llanrug yn dangos un o'r 'Guides' gyda'i 'Pony' ychydig o dan y copa.*

*Uchod gwelir canolfan y 'Ponies and Guides' sef Gwesty'r Snowdon Valley, Llanberis. Llun hynod o ddiddorol wedi ei yrru i'r* Eco *gan Mr T.I. Price, Stryd Siarlot, Llanberis. Safai'r Snowdon Valley dros y ffordd i lle mae siop y fferyllydd heddiw.*



*Llun teulu enwog y Bing yn byw o dan y 'viaduct' – llwybr trên bach yr Wyddfa. Llun Mrs Gwyneth Arfon.*



**GWILYM JONES**
**Monumental Works**
**LLANRUG**

FFÔN CAERNARFON 2898

Gwaith Coffaol o bob math
mewn llechi a gwenithfaen gan
grefftwyr lleol


*Rhoddwyd sylw arbennig yn yr* Eco *er pan y'i sefydlwyd i'r Wyddfa ei hun. Cafwyd erthyglau ar ei hanes, y Ras Fawr Flynyddol, moto beics ar y copa, a hyd yn oed beirdd yn aros yno ac yn cael eu symbylu. Dyma fwy o sylwadau wedi eu gyrru gan gyfeillion am hynt a helyntion dyn a'i gysylltiad â'r mynydd enwog.*

*Diddorol oedd deall fod y Cyngor Datblygu Cymreig wedi cynnwys £250,000 yn eu rhaglen flynyddol i gychwyn ar y gwaith o arbed copa'r Wyddfa rhag erydiad. Diddorol hefyd yw'r gerdd a'r sylw isod ar yr un pwnc tua chanrif yn ôl.*




### TORRI PEN YR WYDDFA

**Bu helynt yn y papurau newydd fod Carnedd Llewelyn yn uwch na'r Wyddfa o 3 llath a 17 modfedd, yn ôl mesuriad gofalus tri neu bedwar o beirianwyr profiadol.**

**Awgrymodd Andronicus yn *Y Genedl* i Syr Edward Watkin, a berchenogai ddarn o'r Wyddfa, roddi gwaith i ryw ddwy fil o ddynion a dwy fil o geffylau i gario rwbel Chwarel Llanberis i fyny i ben yr Wyddfa, a'i gwneud yn gan troedfedd yn uwch na Charnedd Llywelyn, rhag ofn i "Frenhines Mynyddoedd Cymru" golli ei choron!**

**Yn ôl yr hen gyfeiriad, yr oedd yr Wyddfa yn 3,577 troedfedd o uchder, a Charnedd Llywelyn yn 3,471 troedfedd. Dyma fel y ceir yn *The Annals and Antiquities of Wales* gan Thomas Nicholas, M.A., Cyfrol I, 1872; ond dyma'u mesuriad yn ôl y *survey* diwethaf:**
**Yr Wyddfa: 3,560 troedfedd; Carnedd Llewelyn: 3,484 troedfedd.**

Brenhines bryniau Cymru Wen,
Ym mro'r uchelder gwyd ei phen
I gyfarch gwell i sêr y nen,
  Mewn gwisg o gymyl duon;
Herfeiddiol yw ei rhyfedd lun,
Mae'n sefyll ar ei throed ei hun,
A phen y Garnedd wrth ei chlun, –
  Hen Wyddfa fawr yn Arfon.

Ysbrydion y canrifoedd gynt –
Y trymlaw erch a'r pedwar gwynt,
A fuont ar ryfelgar hynt
  Yn curo'i bronnau noethion;
Ond saif i fyny, hyd yn hyn,
Ac ar ei chorun mawr di-gryn
Y dawnsia manblu'r eira gwyn –
  Hen Wyddfa fawr yn Arfon.

Yn uchaf *un* arferodd fod,
Yr uchaf *yw,* boed iddi'r clod;
Y Garnedd sydd islaw y nod,
  Yn sefyll ar ei safon;
Ysgythrog greigiau Eryri lon,
Ymgrymant oll i lawr gerbron
Yr hen unbennes gadarn hon –
  Yr Wyddfa fawr yn Arfon.

Y Saeson beunydd sydd ar fai,
Gwnant bopeth *mawr* Cymreig yn *llai;*
Chwi wyddoch nad yw troedfedd rhai
  Yn ddeuddeg modfedd union;
Ond er mwyn bod yn *uwch* yn awr,
Rhaid codi'r Garnedd oddiar lawr,
Neu dorri pen yr Wyddfa fawr –
  Yr Wyddfa fawr yn Arfon.

*West Pawlet, Vt. 1889*
*Dewi Glan Dulas*




*Parti o Americanwyr wedi cyrraedd copa'r Wyddfa gyda rhai o drigolion Llanberis yn 1874.*

### HANES Y CAR CYNTAF I BEN YR WYDDFA

**YN ÔL adroddiad o'r 'Herald' a yrrwyd i'r 'Eco' gan Mr W. Jones, Storfa Padarn, Llanberis concrwyd yr Wyddfa mewn car mor bell yn ôl â 1902. Yn anffodus ni allwn atgynhyrchu'r llun ar gyfer yr 'Eco'. Ynddo mae car Mr Harvey du Cross yn sefyll ychydig oddi tan yr hen**

# AR I LAWR!




**Llun cynnar iawn o ben yr Wyddfa gyda'r gwesty ar y copa. Sylwch ar hysbyseb blawd y Snowdon Flake oddi tano ac wedi ei ysgrifennu yn Gymraeg. Diolch i Mr Bryn Davies, Bro Rhyddallt, Llanrug am y llun.**

**Ond mae blynyddoedd o fynd a dod, o stormydd enbyd wedi naddu'r copa. Gweler isod gerdd a sylw arbennig o'r ganrif ola' yn sôn am un a fu'n gyfrifol am gario teithwyr dirifedi i'r copa.**

### RALIWE YR WYDDFA

**Dechreuodd y Trên gario teithwyr i ben yr Wyddfa ar ddydd Sadwrn y Pasg, 1896. Cwympodd y peiriant dros lethr y mynydd i'r dyfnder islaw ar Lun y Pasg.**

**Ar ôl hynny, gwnaed "dannedd cranc" i'r olwynion, ac ni bu damwain, o ddim pwys, wedyn, gan fod y gafael yn ddiogel.**

Trwy antur a chelfyddyd
Mae'r byd yn troi yn bair,
Nes dwyn eithafoedd daear
O fewn i gyrraedd gair;
Pob uchter a phob dyfnder
Ddiddymwyd rhag y blaen;
Ni bydd y môr ond megis llyn,
Neu'r mynydd ddim ond maen.

Er bod yr Wyddfa'n uchel,
Yn gadarn, ac yn hen,
Gwnaeth dyn hi heddyw'n degan,
Do, druan, dan ei Drên;
A chyrraedd wna i'w chorun
Ar hyd ei "Raliwe",
Ac yna i lawr trwy'r Ceunant Mawr,
Mewn awr, neu lai, i'w le.

O! mae'r hen Wyddfa'n rhyfedd,
A'i grudd o dan y graith,
A rhes o "ddannedd gosod"
Yn barod at y daith, –
Lle dring yr ager-beiriant
O ddant i ddant i'w phen.
Ac os y mynnir, yn y man,
Cawn "newid am y nen."

Wel, awn i ben yr Wyddfa
Yn dyrfa hefo'r Trên, –
Yn foliog, tal, a thenau,
Yn ieuanc, ac yn hen;
Cawn wledda yn yr entrych
Gan wledda ar y byd,
A llon fwynhau'r olygfa hardd,
Sydd megis gardd i gyd.

Ysgubir ni dros bontydd,
A chreigiau ar ein hynt,
Pob milltir fry fel mellten,
Neu bluen gyda'r gwynt;
Uwchben y dibyn erchyll
Heb esgyll, yn ddi-fraw,
Ac yno gyda "Gŵr y Lloer"
Cawn ddifyr ysgwyd llaw!

Ffarwel i'r *Guides a'r Pony*, –
Fe'u collid hwy yn lân,
Chwibanwyd eu "Marwnad",
Do, gan y "Ceffyl Tân";
Hwre! i'r "Orsaf Uchaf,"
Nes delo'r *Air Balloon*; –
Pryd hynny clywir yma'n glir,
*Change here for the moon!*

*Ap Glaslyn (1896)*



*Y llun trwy garedigrwydd Mrs Gwyneth Arfon, Nefyn.*

**westy gyda thwr o bobl o'i gwmpas. Yn ôl adroddiad arall 'roedd y diweddar Owen Griffith, Llwyn Padarn yn y llun. Os yw'r llun yma ym meddiant rhywun rhowch wybod i ni yn yr 'Eco'. Ein diolch i Mr W. Jones am y wybodaeth.**

# Agor Ffiniau'r Gorffennol

**gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.**

### DILYS CADWALADR

### Y FERCH GYNTAF

Dilys Cadwaladr oedd y ferch gyntaf i ennill Coron yr Eisteddfod Genedlaethol. Enillodd ei Choron yn Eisteddfod Genedlaethol y Rhyl 1953 gyda phryddest 'Y Llen'.

Hi hefyd oedd y ferch gyntaf i ennill Coron Eisteddfod Gadeiriol Môn, 1939. Hon oedd y Goron gyntaf iddi ennill mewn eisteddfod.

Enillodd wobr gyntaf am nofel yn Eisteddfod Llanrwst. Ni chyhoeddwyd y nofel hon ond yr ydym yn gobeithio y caiff ei chyhoeddi cyn bo hir.

Y mae cyfrol o'i storïau byrion wedi ei chyhoeddi.

Hoffwn sôn am Eisteddfod Lewis's. Dilys Cadwaladr oedd y ferch gyntaf i ennill Cadair Eisteddfod Lewis's Lerpwl. Credaf mai Mehefin 14, 1946 y digwyddodd hynny. Yr oedd yn athrawes yn Ysgol Ganol Pwllheli ar y pryd a newydd briodi gyda Mr Scheltinga. Clywais hi'n dweud mai pedair awr gymerodd hi i gyfansoddi'r gerdd.

'Y Wyrth' oedd testun y Gadair. Cymerodd hithau Hanes Atgyfodi Lazarus i ddisgrifio Gwyrth. Ysbryd Lazarus sy'n siarad trwy gydol y gerdd pan yw corff Lazarus yn y bedd. Y mae 'monologue' o enau'r ysbryd yn cyrraedd uchafbwynt pan mae'r ysbryd yn clywed Crist yn gweiddi "Lazarus, tyred allan".

Cynan oedd y beirniad a dywedodd: "Dyma farddoniaeth ysbrydoledig, ond ar yr un pryd nid yw yn bregethwrol". Rhoddodd Cynan ganmoliaeth uchel i'r gerdd.

Caerwyn oedd yn arwain seremoni'r Cadeirio yn y dull traddodiadol. Mr W.C. Thomas oedd Ceidwad y Cledd wedi ei wisgo mewn porffor, a gorymdaith o feirdd mewn gwyn yn dilyn er mawr fwynhad i'r gynulleidfa.

Ar ôl i Cynan gyhoeddi enw'r bardd buddugol aeth pedwar o bobl i'w gwisgo a'i chyrchu i'r llwyfan. Miss Eryl Thomas (Bangor) a Miss Estelle Haynes (Wallasey) y ddwy mewn gwisg Gymreig; y ddau feirniad cerdd hefyd wedi ymwisgo fel beirdd, Syr Hugh Roberton a Mr Aneurin Rees.

Canodd Telynores Eryri Gân y Cadeirio gyda Thelynores Maldwyn yn canu'r Delyn. Emyr ap Cynan (aelod o'r Orsedd a mab Cynan) oedd un o'r rhai i gyfarch y bardd buddugol.

### PRYDDEST 'Y LLEN'

Dyma ran o feirniadaeth J.M. Edwards, (T.H. Parry-Williams a Saunders Lewis oedd y ddau feirniad arall). Yr oedd 36 o gyfansoddiadau.

Meddai J.M. Edwards:

"Gafaelodd y gerdd hon ynof o'r cychwyn, ac yr oedd darllen ei pharagraff agoriadol yn ddigon i'm perswadio bod yma artist medrusach ar fesur, a mwy synhwyrus o'i gyneddfau barddol.

Nid oes dim syfrdanol newydd yn ei thema sef ymchwil dyn drwy len mater am y dirgelwch hanfodol, y llen a weodd y Crëwr o'i gylch fel gwe pryf copyn, a chael nad yw eithaf datguddiad Duw yn y Gread anianol. Nid yno mae'r gyfrinach fawr...

Byddardod ac oerni henaint sydd yn nyfnder y garreg, eithr gwresog yw crefydd 'y Sant o'r Garreg Lem'...

A sicrach o'i lwybr drwy'r llan yw cyfeiriad ffydd na ffosil, a gweddi na greddf, o dreiddio drwy'r gorchudd, er iddo wawdio'r syniad hwnnw unwaith...

Mynegodd y bardd a deimlodd ac a welodd, mewn dull personol ac mewn arddull ddigwmpas a chynnil...

Awgrymiadol iawn yw "gwyll fy nghell" ar ddechrau'r Bryddest ac "Ystafell yn goleuo" ar y diwedd.

Fel hyn y mae'r Bryddest yn agor:

**Erlidiais ddirgelwch tu hwnt i'r enfys,
Yng ngwyll fy nghell ymguddiais
Chwyddodd fy llygaid i weld anweledig
Betheuach haint a chyniweirus
Ymlusgiaid y llaid a'r llwch.
Syllodd yr anllygeidiog
Fodau i fyw fy llygaid,
A thua'r hwyr a minnau'n drwm o
siom**

**Credwn mai yno y nythai Ef
Yn dawel ymysg y pryfetach.**

**Dodais y nwy yn y glorian
A gwelais neidr y trydan yn llithro
Ar wifren goch yn ôl i gôl y gwyll.**

**Ba Law a dorrodd y barrau
Rhwng greddf a gweddi?**

**Pwy a fwngialodd ystori hwian
Yng nghlust dynolryw gan awgrymu
Mai llaw marwolaeth a ddyry ddat-
guddiad?
"Tu hwnt i'r bedd...Tu hwnt i'r llen..."**

Y mae'r Bryddest yn gorffen fel hyn:

**Daw diwedd nwyd ac arafu anadl.
Bryd hynny, gŵyr yr enaid
Yr hiraeth nad yw o ddaear.
Yna daw cwsg a maith anwybod.
Y Llen a gryn dan law tangnefedd –
Crynu a goleuo ennyd
Fel y goleua ystafell y claf
Lle ciliodd Angau.**

### ENGLYNION

Rhyw chwe blynedd yn ôl anfonais ati a gofyn a fuasai yn cyfansoddi englyn neu ddau er cof am Awen Mona (hen ffrind iddi). Yr oedd Awen Mona wedi colli ei phriod, Dr. Rees, ers blynyddau ac hefyd wedi colli ei hunig fab, Iolo. Derbyniais y tri englyn canlynol gyda throad y post:

### AWEN MONA

**Dy gariad oedd dy goron,– ti luniaist
Delyneg y galon.
Ar y Maes bydd dagrau Môn
Ar ruddiau y Derwyddon.**

**Cefnaist yn hedd y cyfnos,– y diwedd
Diwewyr yn agos,
Ond 'roedd ef yn nef y nos
Â'i wên dirion yn d'aros.**

**A daeth yn ôl dy Iolo. – Daeth
gorffwys
A daeth gorffen wylo.
Er y graith, fe fydd i'r gro
Lawenydd yr ailuno.**

*Dilys Cadwaladr.*

STORFA
**Mace**
**O.R. & M. PARRY**
**Sgwâr Llanrug**
**Caernarfon 2790**
**Perchnogion newydd, ond gwasanaeth a chroeso cystal ag erioed !**

# CWM-Y-GLO

GENI — Llongyfarchion i Mr a Mrs Kenneth Williams, Glanbogelyn ar enedigaeth merch fach, ar Mawrth 14 — chwaer i Terry a Karen.

LLONGYFARCHIADAU — i Miss Susan Owen, Talgwynedd, ar ei phen-blwydd yn ddeunaw oed ar Chwefror 24. Dymuna Susan a'r teulu ddiolch i bawb am eu caredigrwydd.

GWAELEDD — Deallwn fod y canlynol mewn cyfnod o anhwylder ar hyn o bryd: Mrs Evans, Arosfa; Miss Parry, Craig-y-Din, Mr Huw Pritchard, Bryn Gwynedd a Mr J.C. Jones, 21 Dolafon. Dymunwn adferiad buan iddynt oll.

MARW — Trist oedd clywed am farwolaeth Mrs Kate Jones, Meillionen, modryb Mr a Mrs Maurice Jones. Hefyd pan ar fynd i'r wasg daeth y newydd trist am farwolaeth Miss Blodwen Williams, Afallon, fore Mawrth 19 ym Mhlas Maesincla Caernarfon.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i'w teuluoedd.

PÊL-DROED — Dechreuodd yr ail dymor i dîm pêl-droed y Cwm. Maent yn aelodau o Gynghrair Gwyrfai — oedran o dan 15. Gartref y chwaraewyd y gêm gyntaf, yn erbyn Mountain Rangers. Trechwyd Cwm o 12 gôl i ddim. Y mae'r aelodau i gyd yn anfon eu dymuniadau i David Jones, Ty'n Twll, Brynrefail a Paul Jones y Snowdon.

CLWB IEUENCTID — Nos Wener, Mawrth 9 cynhaliwyd Rowndiau Rhagarweiniol y Gemau dan-do, yng Nghlwb Llanberis. Bu aelodau'r clwb yn hynod o anlwcus drwy golli yn y rownd derfynol, gyda dartiau, tenis-bwrdd a drafftiau.

UNDEB Y MAMAU — Bu Gwasanaeth Cymun Bendigaid y Garawys i aelodau Undeb y Mamau yn Eglwys Sant Gabriel ar nos Fawrth, Mawrth 13. Gweinyddwyd yr Offeren gan y Rheithor a Miss Ceridwen Hughes oedd wrth yr organ. Wedi'r gwasanaeth caed gwledd arbennig iawn wedi ei threfnu gan y gwesteion Miss C. Hughes, Pool Street a Mrs L.C. Higgins, Bron Eryri i ddathlu pen-blwydd mam y Rheithor yn 90 y Sul canlynol. Yr oedd Mrs J.E. Watkins wedi gwneud teisen pen-blwydd a rhoed tusw o flodau i Mrs Williams gan yr aelodau oedd yn bresennol. Fe ddymuna'r Rheithor a'i briod ddiolch i'r aelodau am eu caredigrwydd a'u haelioni. Bu i bawb fwynhau eu hunain yn fawr iawn.

# TAN-Y-COED

LLONGYFARCHIADAU — i Mrs M.E. Shilton, Tan-y-coed Cottage ar ddathlu ei phen-blwydd yn 93 mlwydd oed, ddydd Sul, Mawrth 11. Derbyniodd lu o gyfarchion pen-blwydd gan berthnasau a chyfeillion. Cyfarchwyd hi ar ran Ysgol Sul Tan-y-coed gan Alwena, Bethan a Manon.

GWAELEDD — Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau am adferiad buan i Mr Ifor Williams, Cartre sydd yn Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor. Da deall ei fod yn gwella.

Da gweld Mr Arthur V. Jones, 6 Maes gerddi, adre'n ôl, yntau wedi bod yn Ysbyty Môn ac Arfon. Croeso adre.

HUW HUMPHREYS — Blwyddyn yn ôl ymddeolodd Huw Humphreys, Llanrwst (4 Tai Tan-y-coed gynt) o'i swydd fel peiriannydd rhanbarth Cwmni Crosville yng Nghyffordd Llandudno.

Yn ystod ei flwyddyn olaf yn y swydd hon, defnyddiodd fws cyffredin a'i addasu i'w ddefnyddio ar gyfer ymdrin â bysiau wedi torri i lawr ar eu taith (breakdown recovery vehicle).

Yng Nghyffordd Llandudno yr adeiladwyd y bws arbennig hwn o dan gyfarwyddyd Huw Humphreys. Yn fuan defnyddiwyd rhai tebyg ym Mangor ac Aberystwyth, ac erbyn hyn defnyddir wyth ohonynt gan y cwmni yma ac acw mewn gwahanol ganolfannau yn perthyn i'r cwmni.


Wedi ymddeol gwnaeth Huw Humphreys fodel o'r bws hwn. Y mae'r model bychan yn gyflawn i'r manylder eithaf ac yn gweithio ar fatri.



Tynnwyd y llun yma o Huw Humphreys a'i fodel gan Gwmni Crosville i'w gynnwys ym mhapur cenedlaethol y cwmni.

Mab y diweddar Mr a Mrs W.J. Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed yw Huw Humphreys, a'i briod yn ferch i'r diweddar Mr a Mrs R.R. Jones, Tan-y-bryn. Cyn mynd i Gyffordd Llandudno bu Huw Humphreys yn gweithio gyda'r un cwmni yn Llanrwst ac yng Nghaernarfon.

## LLWYDDIANT YN UGANDA



Derbyniodd Mrs H.M. Roberts, 23 Dol Eilian, Llanberis nodyn brys o Uganda yn ystod y mis yn dweud fod ei hwyres wedi llwyddo yn eithriadol gyda'i harholiadau. Dyma lun o Jennifer Kisalu o Kampala Uganda a lwyddodd i ennill 7 gradd anrhydedd yn ei harholiadau. Daeth yn drydedd orau drwy Uganda ac o'r herwydd cafodd ymddangos ar y teledu yno. Merch ydyw i Mrs Dilys Wyn Kisalu (Roberts gynt) sy'n derbyn yr *Eco'n* fisol.

Llongyfarchiadau'r fro, Jennifer.

# Cywilydd O Beth!



*Ydach chi'n cofio geiriau William Jones yn nofel T. Rowland Hughes pan ddaeth Leus ei wraig â chips adref iddo un noson? Dywedodd wrthi'n blwmp ac yn blaen be' i' wneud â'i chips.*

*Dyna neges ffotograffydd a gohebydd yr* Eco *i'r dihirod a daflodd y garafan yma i'r afon ym Mwlch Llanberis: "Cadw dy bl... sbwriel".*

## YMATEB O BELL

**Mae'n braf cael ymateb i erthyglau yn *Eco'r Wyddfa* ar unrhyw adeg ond pan fo'r ymateb yn cyrraedd y golygydd o bellafoedd byd — mae'n codi calon dyn i'r entrychion.**

**Diolch i Mrs Olwen Britt o Whitebow, New York, U.D.A. am ei llythyr caredig. Drwy Mrs Meirwen Metcalf y derbyniodd Mrs Britt yr *Eco*. Cafodd ei geni yn yr America ond mae'n ymwybodol iawn o'i chysylltiadau â Chwm-y-glo.**

**Richard Edwards ac Annie Davies Edwards oedd ei rhieni. Yn wir hi yw'r unig un o'r teulu ar ôl. Collodd ei rhieni a'i chwiorydd.**

**Siaradai ei rhieni Gymraeg ac er bod Mrs Britt yn deall yr iaith nid yw'n gallu ei hysgrifennu.**

**Mae'n briod â Larry, sydd yn rhedeg ei fusnes llefrith ei hun ac mae iddynt bedwar o blant.**

**Diolch Mrs Britt am y neges a phob bendith.**

**—Gol.**

*Hafod,*
*11 Fairlands Crescent,*
*Rhuddland,*
*Clwyd.*

*Annwyl Olygydd,*

*Dr. R.H. Mills Roberts, M.R.C.S., L.R.G.P.*

*'Rwyf yn cofio Dr. Mills Roberts yn dda pan oeddwn yn treulio fy machgendod yng Nghwm-y-glo.*

*Gyda golwg ar ei gyfnod gyda Preston North End — 'roedd tîm P.N.E. yn y cyfnod hwnnw yn cael ei adnabod fel 'The Invincibles', ac yn ôl yr hanes, os yw fy nghof yn iawn, pan enillasant Gwpan Lloegr, fe gadwodd y Dr. y gôl heb adael i'r bêl fynd i'r rhwyd un waith o gwbl o'r Rownd Gyntaf hyd y 'Final'.*

*Yr eiddoch yn gywir,*
*W. Morris Jones.*

## YN EISIAU

**2 'Seater 3 Piece'** — Mrs A.M. Lucas, 19 Dôl Elidir, Llanberis.

## AR WERTH


**Uned Gawod gyflawn** i'w osod uwchben y bath.
**Lamp Olau Fwrdd** o Habitat.
**Gard Stof** 'Mothercare'
**Sedd Toilet** ar gyfer plentyn bach.
**Stôl** ar gyfer plentyn bach i'w defnyddio mewn ystafell molchi.

*Ni chafwyd enw na chyfeiriad y sawl sy'n dymuno gwerthu'r uchod. A wnaiff unrhyw un sy'n dymuno prynu'r nwyddau a'r gwerthwr gysylltu â John Roberts Bedw Gwynion, Ffordd Glanffynnon, Llanrug.*

**Ffrog briodas** — seis 18, steil Victorianaidd. Dim marc arni — £25. *25 Lôn Eilian, Caernarfon.*

**Beic addas i fachgen neu eneth tua 8 oed, mewn cyflwr da — £10 — ffon: Y Felinheli 670569.**



**GORS BACH PANEL BEATING SERVICE Cwm-y-glo**



Ffôn : LLANBERIS 814

GWASANAETH TORRI-LAWR 24 AWR

# EISTEDDFOD CAERNARFON A'R CYLCH




Mae pob colofn yn golygu nod y pentref.

# GAIR O'R GWERSYLL

**DAETH pwt o air ymhellach, ddechrau Chwefror, oddi wrth Alun Lloyd Hughes i'w frawd, Gwyndaf, o'r Gaiman yn y Wladfa, ym Mhatagonia.**

Er y bwriadai ef a'i gyfaill fod wedi hwylio i fyny y fjords ar lannau Gorllewin Chili, 'doedd yr un cwch hwylus i'w chael ar y pryd ac felly gorfodwyd hwy i ffawd-heglu i fyny i'r Wladfa.

Teithiasant fil o filltiroedd o Punta Arenas; anialwch yr holl ffordd.

Cawsant newid ychydig tua Phenrhyn Valdez i weld bridfa yr eliffantod môr, yn heidio y traethau. Yno mae y Great White Whales yn treulio'r gaeaf.

Ni all ddirnad beth berodd i'r holl Gymry ymfudo yno yn niwedd y ganrif ddiwethaf, gan mor ddifrifol yw y lle. Anialwch diderfyn; gwyntog, llychlyd, cras-boeth, heb ddim i liniaru yr hinsawdd, ond peth gwyrddlesni gyda glannau'r Afon Chubut.

Lle drud iawn yw'r Wladfa – dim dŵr! a pop yn costio ffortiwn. Sôn am chwyddiant ffugur sengl yng Nghymru! Mae yn 160% y flwyddyn yno.

Sonia am eu hymweliad â Phorth Madryn gan ei debygu i Bwllheli mewn 'hurricane'. Yn y Gaiman 'doedd ganddynt fawr i'w wneud ond cicio'u sodla'. 'Roeddent wedi taro ar gryn dipyn o Gymry ac yn ei theimlo hi yn hyfrydwch pur, cael siarad Cymraeg ar ôl mwydro mewn Sbaeneg am fis. Mae ansawdd yr iaith yn bur yno – heb Saesneg ar ei chyfyl. Yr henoed sy'n sgwrsio yn Gymraeg fynychaf, heb fawr neb ifanc i'w siarad. Mae dylanwad y capel yn drwm ar y genhedlaeth hŷn ac oglau crefydd ar bob dim Cymraeg. Cred fod y Gymraeg yn marw felly erbyn y bumed genhedlaeth.

Prif ddiddordeb y Cymry ydi llenyddiaeth, corau cerdd a chapel. Pan soniodd Alun am eu bwriad i fynd i fyny i Esquel i ddringo – dyna ddiwedd ar yr holi.

Ŵyr o ddim beth feddylient ohonynt! Amheua a welsent Gymro o'r blaen yn gwisgo 'shorts', pwt o 'T shirt' a 'rucksack' ar ei gefn, heb fod yn gwybod dyddiad geni T. Gwynn Jones ac heb fod yn gyfarwydd â 'hit' ddiweddaraf Côr Godre'r Aran.

Hawdd yw deall eu hagwedd gan mai oedolion fu eu hunig ymwelwyr diweddar, gweinidogion, athrawon ac ati a allai sgwrsio yn rhydd, yn ôl eu diddordeb.

Cydnebydd iddo gael dipyn o sgyrsiau a hen hanesion am y bywyd yno. Cyfarfu ag ambell un o'r pentrefwyr a fu yng Nghymru ei hunan ar ymweliad. Cafodd weld Amgueddfa pur ddiddorol.

Bwriadent symud ymlaen i flaenau'r cymoedd, erbyn y Sul – Chwefror 4.

Enfyn bwt arall o Esquel ar Chwefror 5 ac yn aros yn Trevelin. Dyma fyd o wahaniaeth! mewn gwlad braf yng nghysgod y mynyddoedd. Tir ffermio da – digon o goed a dŵr a'r Andes yn gefndir iddo.

Cânt groeso cynnes yno ac aros gyda chwpl Cymraeg tua'u hoedran hwy.

Dyma gyrraedd y 'base camp' a drefnwyd i'r tîm dringo. Hen fwthyn ar dir 'ranch' Cymro o'r enw Rederick Green ydyw. Cânt ddigon o lefrith, 'menyn a chig yno a phawb yn hynod o hael efo nhw. Mae gryn dipyn o newid o'r wythnosau cynt.

Disgwyliant weddill yr hogia' ymhen wythnos. Aent i weld y mynydd drannoeth, ar geffylau benthyg. Gobeithiant gael pethau i drefn cyn i'r hogia' gyrraedd. Dymuna hwyl i bawb o'i gydnabod.

R.W.(Llanrug)

# Nant Peris

CYWIRIAD – Yn y rhifyn diwethaf o'r *Eco* rhoddwyd enw Dafydd T. Pritchard fel enillydd ar adrodd yn Eisteddfod Ysgol Brynrefail. Hefin Pritchard, ei frawd, ddylasai fod i lawr; ar farddoni yr enillodd Dafydd.

DYMUNIADAU – gorau i Mr a Mrs Emyr S. Jones, Gwynant ar achlysur eu priodas yn ystod y mis. Bydd y pâr ifanc yn cartrefu yn Llundain a dymunwn i'r ddau bob bendith yn eu cartref newydd ac yn eu bywyd priodasol.

LLONGYFARCHIADAU – i blant Rehoboth i gyd am eu llwyddiant yn Eisteddfod Eglwysi Undebol Llanberis a'r Nant. Gwnaeth y plant i gyd waith ardderchog ym mhob adran, canu, adrodd, traethodau ac arholiadau llafar, credwn i bob un o'r plant gael marciau llawn yn yr arholiadau llafaredig yn yr eisteddfod, Da iawn blant am eich llafur.

HENADURIAETH ARFON – Rhyw unwaith bob deng mlynedd fydd Henaduriaeth Arfon yn cyfarfod yn y Nant. Digwyddodd hyn ddiwedd y mis diwethaf. Cafwyd anerchiad yng nghyfarfod yr hwyr gan y Parch. D. Ben Rees, M.A., B.D., M.Sc., Lerpwl ar 'Ein Hetifeddiaeth', a hir gofir gan bawb oedd yn bresennol. Ein diolch i'r chwiorydd am baratoi lluniaeth rhwng cyfarfod y pnawn a'r hwyr ar gyfer y dieithriaid.

Pnawn ddydd Mercher darparwyd te i'r plant gan y chwiorydd i ddiweddu tymor y Gobeithlu ac fel gwerthfawrogiad am eu llafur yn ystod y gaeaf.

E. & E.M. GREEN
SIOP GRON
A SWYDDFA'R POST
PENISARWAUN
Ffôn: PADARN 272
NWYDDAU GROSER
FFRWYTHAU A LLYSIAU
FFRES

# LLANBERIS

DYDD GWEDDI CHWIORYDD Y BYD — Bu dathlu Dydd Chwiorydd y Byd ddechrau Mawrth yng Nghartref yr Henoed, Plas Pengwaith. Mrs Mary Lloyd Williams, Llanrug oedd yn arwain a rhoddodd anerchiad. Yr oedd Mrs Williams, Matron y Cartref yn bresennol. Talwyd diolch i Mrs Lloyd Williams gan Mrs D.S. Williams (Llanrug gynt).

DYWEDDÏAD — Llongyfarchion a dymuniadau gorau i Veronica Pritchard merch Mr a Mrs E.G. Pritchard, 38 Maes Padarn a Geraint Owen mab Mrs M. Owen a'r diweddar Mr R.N. Owen, Bryn Gwylan, y Waunfawr.

DIOLCH — Dymuna Joan a Dafydd Hughes, 1 Stryd Tomos ddiolch o galon i bawb o'r teulu a ffrindiau am yr holl anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniwyd ar enedigaeth Lliwen a Llinos.

PEN-BLWYDD — Pen-blwydd hapus i Taid, Mr W.J. Roberts, Rhianfa, ar ei ben-blwydd yn 65 oed ar Mawrth 25. — Karl, Mandy, Einir, Llion, Rhian, Bethan, Deian, Lliwen a Llinos.

CLWB YR HENOED— Fe ddathlwyd Gŵyl Ddewi eleni eto trwy garedigrwydd Mr Sutherland, yng Ngwesty'r Victoria, a daeth 131 o'r aelodau yno i fwynhau cinio ardderchog. Croesawyd pawb gan Gadeirydd y Pwyllgor, Meira Bryn Hughes, a chyfeiriwyd at y gwahoddedigion arbennig sef Mr Oswyn Rees, Prif Swyddog y Gwasanaeth Cymdeithasol a'r Parch. Marcus Robinson, y gweinidog newydd. Diolchwyd hefyd i bawb o'r cyfeillion a fu mor garedig yn cludo'r pensiynwyr yn ôl ac ymlaen yn ddi-dâl.

Diddorwyd yr aelodau gan Mrs Lloyd a chôr plant Ysgol Dolbadarn dan arweiniad eu hathrawes Mrs Pierce. Mae diolch yn ddyledus iawn i Mrs Annie Jones, Minafon Terrace, ysgrifennydd y clwb am ei threfnu taclus fel bob amser.

SEFYDLIAD Y MERCHED — Dathliwyd Gŵyl Ddewi yn y modd traddodiadol. Mwynhawyd sosial, ac yna cynhaliwyd gwahanol gystadleuthau gyda llawer iawn o'r aelodau yn cymryd rhan. Noson ardderchog meddai pawb!

MARW — Dydd Sul, Chwefror 25, yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor bu farw Mrs Mary Hughes, 9 Stryd y Dwr.

Dydd Sul, Mawrth 10 bu farw Mr Huw Wheldon Hughes, 15 Dôl Eilian . Estynnwn ein cydymdeimlad i'r teuluoedd oll.

PLAID CYMRU — Cynhaliwyd Cinio Gŵyl Dewi'r gangen leol yng Ngwesty'r Victoria yn ddiweddar. Mr Dafydd Wigley, A.S. oedd y gŵr gwadd, a diddorwyd yr aelodau ar ôl y cinio gan Dafydd Iwan a Mr Clwyd Roberts.

YN YR YSBYTY — Dymunir adferiad llwyr yn fuan iawn i Mrs Ethel Jones, Maes Padarn; Mrs Peris Thomas, Maes Padarn; Mrs Parry-Davies, Pen-y-Graig; Mr Llew Roberts, Glan Peris a Mrs Gwyneth Roberts, Merddyn Coch; y cyfan yn yr ysbyty ym Mangor.

Y FRIGÂD DÂN — Trefnwyd arwerthiant lwyddiannus iawn gan y frigâd leol. Dymunant ddiolch i bawb am eu cefnogaeth fel at bob achos da arall yn yr ardal.

EISTEDDFOD — Nos Iau a nos Wener, yr 8ed/9ed o Fawrth, cynhaliwyd Eisteddfod Gofalaeth Capeli Llanberis a Nant Peris, a Nant Padarn.

Y beirniaid oedd: Adrodd: Mrs Madge Hughes, Llangoed; Canu: Mr A.V. Williams, Llanrwst. Cyfeilydd: Mrs Ann Pritchard.

CANU (Dan 4): 1. Dylan; 2. Robin a Steven; 3. Arwyn. (Dan 5): 1. Euron; 2. Nicola a Faun; 3. Alun. (Dan 6): 1. Deian; 2. Iestyn; 3. Simon. (Dan 7): 1. Dylan; 2. Delyth; 3. Darryl. (Dan 8): 1. Nia; 2. Jackie; 3. (Dan 9): 1. Helen Mai; 2. Sian Elen; 3. Gillian. (Dan 10): Sharon; 2. Einir; 3. Andrew a Catrin; 4. Eirian. (Dan 12): 1. Mark; 2. Morfen; 3. Bethan a Iona. (Dan 14): 1. Rhiannon; 2. Mennai; 3. (Dan 17): 1. Rhian; 2. Dilys; 3.
CANU PIANO: (Dan 10): 1. Ann; 2. Einir; 3. Catrin; 4. Sian. (Dan 14): 1. Rhiannon; 2. Nia; 3.
(Dan 12): 1. Bethan; 2. Gwynfor; 3. Ffion a Iona. (Dan 17): 1. Dilys
MODULATOR: (Dan 8): 1. Jackie; 2. Delyth, Nia, Chris. 3. Lisa. (Dan 12): 1. Bethan a Morfen; 2. Petula a Colin; 3. Derek. (Dan 10): 1. Catrin a Ann; 2. Mair; 3. Andrew ac Einir.
PARTI CANU (Dan 10): Parti Glenda 2. Parti Dylan. (Dan 17): 1. Parti Mr Robinson. CÂN WERIN: 1. Dilys; 2. Rhian; 3. Rhiannon. DEUAWD: 1. Dilys a Rhiannon. OFFERYN: 1. Delyth, 2. Bethan, 3. David John.
DEUAWD GYDA'R PIANO: 1. Carys a Dilys; 2. Delyth a Rhiannon.
ADRODD: (Dan 4): 1. Dylan; 2. Robin a Steven; 3. Arwyn. (Dan 5): 1. Faun a Bruce; 2. Euron, Bethan, Nicola, Carys Wyn; 3. Lynne, Derfel a Carys. (Dan 6): 1. Deian; 2. Trystan a Iestyn; 3. Alan. (Dan 7): 1. Dylan, 2. Delyth ac Einir; 3. Eirian. (Dan 8): 1. Nia, 2. Jackie, 3.
(Dan 9): 1. Arwyn, 2. Helen Mai, 3. Iestyn. (Dan 10): 1. Catrin, 2. Sharon, 3.
(Dan 12): 1. Dafydd a Bethan, 2. Ffion, 3. Gwynfor a Colin. (Dan 14): 1. Rhiannon, 2. Keith a Hefin. 3.
CÔR ADRODD (Dan 8): 1. Parti Nia 2. Parti Delyth. (Dan 12): Parti Derek 2. Parti Helen.
GWNÏO: (Ysgol Dolbadarn, Safon 1): 1. Fiona, 2. Christine, 3. Nia G. (Safon 2): 1. Helen Mai, 2. Sharon, 3. Sharon ac Eirian. (Safon 3): 1. Ffion, 2. Einir 3. Nicola. (Safon 4): 1. Jennifer, 2. Glenda, 3. Iona, 4. Gwyneth. (Ysgol Brynrefail, Dos. 1): 1. Melanie. 2
3
(Dosb. 2): 1. Cheryl, 2. Wendy, 3. Bethan a Rita. (Dosb. 3): 1. Amanda
ARLUNIO: Dosb. Meithrin: 1. Anna, 2. Anthony, 3; Dylan. (Dos. 1) 1. Annette, 2. Lynne, 3. Glenda. Dosb. 2: 1. Trystan, 2. Delyth, 3 ?
Dosb. 3. 1. Jackie, 2. Lisa, 3. John Ellis. Safon 1: 1. Nia, 2. Glyn, 3. Arwyn. Safon 3: 1. Colin, 2. Mark, 3. Gwynfor ac Andrew. Safon 4: 1. Bethan, 2. Deryck, 3. Geraint. Dosb. 1: a 2: 1. Mennai, 2, Iwan, 3. Dafydd. Dosb. 3: 1. Rhian, 2. David John, 3. Carys. MAES LLAFAR: (Dan 6): 1. Iestyn ac Alan; 2. Gleeda. (Dan 7): 1. Einir, 2. Geraint. (Dan 8): 1. Dylan a Delyth. (Dan 9): 1. Sian, Arwyn a Gillian. (Dan 10): 1. Sharon, Eirian, Catrin. (Dan 11): 1. Geraint. (Dan 12): 1. Bethan, Iwan. (Dan 14): 1. Wendy, David John. TRAETHODAU: (Dan 10): 1. Gillian, 2. Catrin a Delyth, 3. Nia G. a Jackie, 4. Eirian a Sian G. 5. Nia, Dylan, Glyn, Andrew, 6. Sian Elen, Helen Mai. (Dan 12): 1. Bethan, 2. Iona a Glenda, 3. Iwan, Dafydd, Derek, Geraint, Mark. 4. Ian, Colin, Steven, Arwel. (Dan 14): 1. Rhiannon a Carys. 2. David John, 3. Hefin a Mennai, 4. Keith a Paul, 5. Wendy a Kevin.

YR YSGOL GYNRADD — Nos Wener, Mawrth 23, cafwyd Noson Goffi ac Adloniant o safon uchel iawn yn Ysgol Dolbadarn. Cafwyd mwynhad mawr o wrando ar dalentau disgyblion yr adran iau. Arweiniwyd y noson gan y Prifathro, Mr John H. Hughes. Enillwyr y raffl oedd: Potel Whisci: Mrs Eiddwen Thomas, Stryd y Ffynnon; Bocs Siocled: Mrs Jean Roberts, 13 Stryd Goodman; Tin Bisgedi: Mrs Carys Hughes, Stryd Ianci; Bocs Nwyddau Ymolchi: Mrs John H. Hughes, Penmachno.

Dymuna'r prifathro a'r athrawon ddiolch yn gynnes iawn i'r gofalwr Mr Wilbert Davies, i Mr Lovell, Mrs Pritchard, Mrs Pritchard-Jones a Mrs Nellie Morris am ofalu am y coffi, i Mr Alwyn Thomas am gynorthwyo yn y drws, ac i Mr Wil Jones, Padarn Stores am gyfrannu tuag at y raffl. Diolch hefyd i Bwyllgor Capel Coch am gael benthyca'r llestri te. Diolch i chwithau, yn rhieni a charedigion, am eich cefnogaeth i wneud y noson yn un mor llwyddiannus. Cyflwynwyd yr elw o £92 i Gronfa Leol Eisteddfod 1979.

PASIANT Y PLANT —'Dyma Feibl' — Bydd rhai o blant yr Ysgol Gynradd yn cymryd rhan ym mhasiant Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon 1979, nos Fawrth, Awst 7.

Mae gwerthiant mawr wedi bod ar y tocynnau yn barod ac ychydig o seddau dosbarth cyntaf sydd ar ôl erbyn hyn. Er hynny, y mae digon o le yn yr ail ddosbarth. Os carech archebu tocynnau,yn rhieni a ffrindiau, rhowch eich archeb cyn gynted ag sydd bosibl i'r ysgol. Pris tocyn dosbarth cyntaf £2.50; pris tocyn ail ddosbarth: £2.00.

CRONFA'R EISTEDDFOD — Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i'r canlynol am eu cyfraniadau hael i'r Gronfa: Carnifal Llanberis: £25; Cwmni Adeiladaeth Pirelli: £10; Pen-y-Gwryd: £5; Ysgol Dolbadarn: £90; Mrs Siân Thomas: £13.10 (elw noson Pippa Dee Minor); Mrs Griffith; Cangen Plaid Lafur: £14.40; Clwb Ieuenctid: £20.

Erbyn hyn mae'r pwyllgor yn falch o gyhoeddi mai dim ond £283.80 sydd angen bellach i gyrraedd ein nod, gydag £3,466.20 wedi ei gasglu yn barod.

Mae tocynnau'r Noson Bingo/Cyw Iâr wedi eu gwerthu i gyd.

Nos Wener, Ebrill 6, cynhelir Disgo yn y Ganolfan. Plant Dolbadarn o 6.30 tan 8.30 a phlant hŷn o 8.30 tan 10.30.

Nos Fawrth, Ebrill 24, bydd Rosalind yn cynnal 'Sioe Ffasiynau' yng Ngwesty'r Dolbadarn. Ceir mwy o wybodaeth am y noson yma ar bosteri yn ffenestri'r siopau.

A wnaiff unrhyw un arall sydd yn bwriadu cyfrannu, sicrhau bod eu cyfraniadau yn nwylo'r pwyllgor cyn ddiwedd Ebrill os gwelwch yn dda.

Cynhelir y pwyllgor nesaf nos Fawrth, Ebrill 3 yn Festri Gorffwysfa am 8 o'r gloch.

YN YR YSBYTY — yn Leeds dyna yw hanes Glyn Williams, mab ieuengaf Mr a Mrs J.A. Williams, Eirianfa. Computer Programmer gyda'r Bwrdd Nwy yn Leeds yw Glyn ers rhai blynyddoedd bellach; dymunwn adferiad llwyr a buan iddo. Da yw deall hefyd fod ei dad Alun yn well ar ôl gwaeledd hir.

CLWB METHEDIG ERYRI — (Mawrth 5) — Cyfarfod cyntaf y flwyddyn ac hefyd cyfarfod i ddathlu Gŵyl Ddewi, yng nghwmni Mr Idris Owen, y Waunfawr. Mrs E.A. Morris a Mrs H.M. Squires oedd yn gyfrifol am y te. Pasiwyd pleidlais o gydymdeimlad â Mrs Mair Owen, 21 Dôl Eilian yn ei phrofedigaeth.
(Mawrth 12) — Cyfarfod da dan ofal Mr Griffith Owen, 58 Maes Padarn. Yn gwneud y te oedd Mrs Williams, y Rheithordy, Llanrug a Matron Jones, Glanllyn, Llanrug..
(Mawrth 21) — Recordiwyd 'Dewch am Dro' gydag Alun Williams yn y Ganolfan. Yn cymryd rhan oedd: Mr Ted Thomas, ysgrifennydd y clwb; Matron A.M. Jones, llywydd y clwb; Mrs M.E. Jones, trysorydd y clwb, Mrs D.S. Owen, aelod.
Mrs Huw Roberts, aelod o'r clwb.

Bydd y darllediad ar y radio ddydd Sadwrn, Ebrill 7 am 12.00 ac Ebrill 8 am 5.30.

# BETWS GARMON

CYDYMDEIMLIR — â Mrs C. Pritchard, Bryn Derwen (colli brawd) ac â Mrs Rhian Evans, Bron y Graig (colli taid).


W.J.GRIFFITH

PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG

*Ffôn: Caernarfon 3248*

GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW

BP heat

Aelod o'r National Association of Plumbing and Mechanical Services Contractors.

*Dim un dasg rhy fychan,*
*Dim un dasg rhy fawr.*



CARPEDI
A BLEINDS

Gwasanaeth Glanhau Carpedi yn eich tŷ (peiriant stêm)

Cewch ddewis eich carped yn eich tŷ
neu'r storfa (ffoniwch gyntaf)

ORIAU BUSNES — UNRHYW DDIWRNOD
AC UNRHYW AMSER

JAMES A. WILLIAMS
ARBENIGWR CARPEDI
RHOSGADFAN

FFÔN: LLANWNDA 830796 (unrhyw amser)

# O'R CYNGOR

**TRYDAN – Mae'r Cynghorydd Pat Larsen wedi sgrifennu i Bencadlys MANWEB yng Nghaer i ddiolch i'r peirianwyr a ddaeth allan yn y tywydd ofnadwy a gawsom yn ddiweddar i drwsio diffygion yng nghyflenwad trydan y fro.**

**Gofynnodd Mrs Larsen a oedd hi'n bosibl i MANWEB wneud mwy o ddefnydd o'r cyfryngau, ac yn enwedig y radio yn y dyfodol i roi bwletin bob hyn a hyn mewn cyfnod o dywydd drwg er mwyn i bobl leol wybod yn union beth i'w ddisgwyl, ac er mwyn rhoi rhybudd o doriadau trydan os yn bosibl.**

EIRA – Pan aeth y Cynghorydd Pat Larsen ati i geisio cael y Cyngor Sir i glirio'r eira oedd yn cau'r ffordd fach heibio Rhes Brynhyfryd, Penisarwaun i gyfeiriad Rhos Wian a Chaer Ffynnon dywedwyd wrthi bod y ffordd hon yn cael ei rhestru fel ffordd breifat gan y Cyngor Sir ac mai nid eu cyfrifoldeb hwythau oedd clirio'r eira. Aeth Mrs Larsen i gysylltiad â'r Adran Les wedyn a gofyn iddyn nhw am gymorth i gael clirio'r ffordd er mwyn sicrhau cyflenwad glo, llefrith ac ati i'r trigolion oedd wedi'u caethiwo am fod rhai o'r bobl hŷn a'u golwg yn rhy wan i ganiatáu iddyn nhw geisio brwydro trwy'r eira. Ymateb yr Adran Les oedd i anfon ymholiad Mrs Larsen yn ôl i'r Cyngor Sir.

## ATODIAD LLANRUG

LLWYDDIANT – Balch iawn ydym o longyfarch Mr Alwyn Griffith, Orwig House ar ei lwyddiant eithriadol yn ei alwedigaeth fel nyrs. Ym mis Tachwedd 1978 enillodd ei S.R.N. yn Ysgol Nyrsio Cylch Sefton Lerpwl. Yn niwedd Chwefror eleni daeth y newydd da iddo ennill dwy wobr am ragori fel nyrs sef Medal Aur yr ysbyty, a llyfr gwerth £7. Yn ddiweddar apwyntiwyd ef yn gynrychiolydd meddygol i gwmni Nicholas. Bydd ei ganolfan yng Nghaerdydd. Mab ydyw i Mr a Mrs R.G. Griffith, Orwig House. Cafodd ei addysg yn Ysgol Gynradd Llanrug ac Ysgol Brynrefail. Pob bendith iddo yn ei alwedigaeth.

## STORI GORNIOG


DAFAD GORNIOG – 'Dach chi'n cofio'r hen benillion 'na am yr hen ddafad gorniog 'na aeth ar goll a'r bardd yn gofyn:

**"Ni welais i byth mo 'nafad**
**Ys gwn i a welsoch chwi?"**

Do ydi ateb gohebydd yr *Eco* – ar aelwyd Mr a Mrs Evan Wilson Hughes!

**"Fe'i gwelais hi'n nhŷ Wilson**
**Newydd werthu'i gwlân,**
**Yn eistedd ar ei chader**
**'Flaen tanllwyth mawr o dân**
**A dyna lle mae'r ddafad**
**'Good morning Wils, how d'ye?"**

# Llyn Peris Mis Mawrth 1979




Mynnwch eich
PAENT a PHAPUR PAPURO
oddi wrth

E.WILSON HUGHES
84 Stryd Fawr
LLANBERIS

Ffôn: Llanberis 491

MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD


# GŴYL GERDD MENAI, 1979

**Ebrill 29–Mai 5**
**Cyfarwyddwr – John Hywel**

**Sul, Ebrill 29 – 8 p.m. – Eglwys y Plwyf, Biwmares**
The Northern Renaissance Consort – *Tocynnau: £1 a 75c*

**Llun, Ebrill 30 – 7.30 p.m. – Ysgol David Hughes**
(1) "Culhwch ac Olwen" (William Mathias)
Côr Adrodd Ysgol David Hughes; Grwp Offerynnol Ysgol Friars; Cantorion Menai – Arweinydd: John Hywel

(2) Côr Meibion Froncysyllte – Arweinydd: John A. Daniel
Eric Morris (violin); Megan Morris (piano) – *Tocynnau: £1.25 a £1*

**Mawrth, Mai 1 – 7.30 p.m. – Ysgol David Hughes**
Janet Price (Soprano) gydag Anthony Saunders (piano) – *Tocynnau: £1 a 75c*

**Mercher, Mai 2 – 8.30 p.m. – Ystafell Gerdd, Plas Newydd**
Pedwarawd Llinynnol Alberni – Bwffe yn dilyn – Gwisg ffurffiol – *Tocynnau: £6*

**Iau, Mai 3 – 7.30 p.m. – Ysgol David Hughes**
Band Pres Gwaith Glo Grimethorpe – Arweinydd: Elgar Howarth – *Tocynnau: £1.50 a £1*

**Gwener, Mai 4 – 7.30 p.m. – Ysgol David Hughes**
Peter and the Wolf (Prokofiev); Masque "St. Teilo" (William Mathias)
gyda J.O. Roberts (llefarydd); Mary Lloyd Davies (Soprano); Gareth Roberts (tenor); Bechgyn Côr y Gadeirlan Bangor
Dawnswyr Menai; Cantorion Menai a Cherddorfa Menai – Arweinydd: John Hywel – *Tocynnau: £1.25 a £1*

**Sadwrn, Mai 5 – 7.30 p.m. – Ysgol David Hughes**
Cerddorfa Symffoni'r B.B.C. – Arweinydd: Edgar Cosma gyda Mark Kaplan (violin)

*Tocynnau: £1.50; £1.25; £1*
Tri adloniant fin nos yn "Y George", Y Coleg Normal

Y Ddarlith Flynyddol gan Yr Athro William Mathias

*Manylion ymhellach a thocynnau o Swyddfa'r Ŵyl, Cil Bedlam, Porthaethwy*
**Oriau agor:** Llun–Gwener: 11.00 a.m. – 4.00 p.m. Sadwrn: 10.30 a.m. – 12.30 p.m.
**Ffôn:** Porthaethwy 714094

*Gyda chefnogaeth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru*

# LLANRUG

UNDEB Y MAMAU — Bu cyfarfod o aelodau Undeb y Mamau yn y Rheithordy ar Nos Gŵyl Ddewi. Arweiniwyd y Gweddïau gan y Rheithor a Mrs Williams y Rheithordy oedd yn llywyddu. Er gwaetha'r tywydd daeth nifer dda ynghyd i gadw noson lawen. Cymerwyd rhan gan Miss C.J. Roberts, Y Fron, Miss Gwennie Griffiths, Disgwylfa, Mrs Pierce, Glanrafon a chaed eitemau gyda'r delyn gan y Rheithor. Y gwestwragedd oedd Miss G Griffiths a Mrs Williams, y Rheithordy. Diolchwyd iddynt gan nifer o'r aelodau. Diweddwyd y noson gyda'r Gras.

PEN-BLWYDD — Dathlodd Mr Richard Owen, 1 Rhos Rug, a Mrs Elen Williams, sy'n aros yn y Rheithordy eu pen-blwydd yn 90 yn ddiweddar a bu i Mrs M.E. Shilton, Tan-y-coed Cottage ddathlu ei phen-blwydd hithau yn 93. Estynnwn ein llongyfarchion iddynt a hyderwn y cânt haul a hwyl hyd y cant oed.

DAMWAIN — Deallwn i Mrs Morris, Erw Hywel gael damwain flin i'w choes a'i braich drwy syrthio yn y tŷ yn ystod y tywydd caled a gaed yn ddiweddar. Hyderwn y bydd yn gwella yn fuan. Deallwn hefyd fod ei phriod Owen Morris wedi cael dod adref o'r ysbyty lle y bu am nifer fawr o wythnosau.

GWAELEDD — Y mae llawer iawn o'n pentrefwyr yn dioddef oddi wrth effeithiau'r ffliw ac yn eu mysg Mrs Jones, 8 Glanmoelyn, Mrs Owen, Glasdy a Mrs Griffiths, Orwig House.

ANGLADD — Cyfeiriwyd yn ein rhifyn diwethaf am waeledd Mr R.J. Williams, Tremallt a drwg gennym orfod cofnodi ei farwolaeth a ddigwyddodd yn Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor. Yr oedd yn frodor o Landdeiniolen a bu yn byw am gyfnod yn y Lôn Las cyn ei symud i Dremallt lle y bu ef a Mrs Williams yn hapus ac yn fawr eu parch. Yr oedd yn weithiwr diwyd a da ac yn gymydog gwerth ei gael. Gwasanaethwyd yn ei angladd gan y Parch. W.O. Roberts a chan y Rheithor y Parch. D. Gwynfor Williams. Estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu oll yn eu galar.

LLANRUG — Clwb Cant: Enillwyr Ionawr: — £10: J. Rowlands, Llys Forgan; £2.50: Eryl Roberts, Tyddyn Alice; £2.50: I. Pierce, Swyn yr Awel. Enillwyr Chwefror — £10: Alun Pierce, 61 Glanffynnon; £2.50: B. Hughes, 34 Glanffynnon; £2.50: E. Roberts, 24 Glanffynnon.

LLWYDDIANT — Aeth parti o'r Clwb Ieuenctid i Fae Colwyn ar Chwefror 28 i gymryd rhan mewn cystadleuaeth dawns ddisgo. Cawsant gyntaf allan o dri pharti — Bae Colwyn a Chaernarfon oedd y ddau arall. Y rhai a gymerodd ran oedd: Gerallt Jones, Brynrefail, Eleri Hughes, Heulwen Roberts, Graham Bott, Susan Ward, Julia Nicholas i gyd o Lanrug. Llongyfarchiadau iddynt.

CYFARFOD GWEDDI CHWIORYDD Y BYD — Pnawn ddydd Gwener yn festri Pontrhythallt cafwyd cyfarfod Gweddi Chwiorydd y Byd. Dechreuwyd am 2 o'r gloch, cymerwyd rhan gan chwiorydd o wahanol eglwysi: Miss D. Jenkins, 1 Penrallt (Hermon); Mrs T. Thomas, Berwyn, (Bryngwyn); Mrs C. Evans, Carwyn a Mrs M. Hughes, Rallt Deg (Tan-y-coed); Mrs Jones, Bungalow a Mrs J. Williams, Bod Fair (Pontrhythallt); Mrs M. Williams, Gweledfa, Miss M.G. Roberts, Glanllwyd; Mrs N. Jones, Madryn; Mrs M. Owen, Glasgoed; Mrs Myfi Roberts, 4 Plas Tirion Terrace (Capel Mawr). Anerchwyd ar y testun 'Tyfu yn yr Ysbryd' gan Mrs N. Roberts, Annedd Wen a hi hefyd oedd yr arweinydd Cyfeiliwyd gan Mrs G. Jones, Dalar Deg.

CYMDEITHAS LENYDDOL (Capel Mawr) — Nos Iau, Mawrth 1 yng ngwesty Plas Tan Dinas treuliodd aelodau y gymdeithas eu noson Gŵyl Dewi a diwedd eu tymor. Y wraig wadd oedd Mrs Morfudd Jones, Llangefni (Eryri gynt) a chafwyd anerchiad gwych ganddi "Ar fod yn ffyddlon i'r pethau bychain". Croesawyd Mrs Jones gan y Parch. W.O. Roberts a diolchwyd iddi gan Mr W. Ellis Owen, Bryn Maen. Cafwyd chwaraeon wedi eu trefnu gan Mrs Jones Gorffwysfa, Mrs Davies, Plas Gwyn, Mrs Owen, Tŷ Fry a Mrs Jones Ogwen. Canwyd caneuon gwerin gyda'n gilydd dan arweiniad Mrs Jones Gorphwysfa a Mrs Jones, Ogwen yn cyfeilio. Diolchwyd i Mrs Jones am ei rhodd anrhydeddus gan y Parch. W.O. Roberts ac i bawb gan yr ysgrifennydd Mr J. Wyn Owen, Llain Delyn.

CYFARFOD DOSBARTH — Nos Fercher am 7 o'r gloch yn festri Pontrhythallt cafwyd seiat dan nawdd cyfarfod dosbarth Llanberis. Dechreuwyd trwy ddefosiwn gan Mr H.R. Jones, Llanberis. Testun y seiat oedd: "Beth yw'r mudiad carismataidd?", agorwr y Parch. W.O. Roberts. Diolchwyd i Mr Roberts gan y Parch. Marcus Robinson a siaradwyd ymhellach gan Mr Gwynfor Williams, Mrs D. Bayliss a Mr Glyn Owen. Llywyddwyd gan y Parch. W.O. Roberts.

Y GOBEITHLU — Nos Lun, Mawrth 5 am 6 o'r gloch cafwyd y Gobeithlu, dechreuwyd trwy ddefosiwn gan Linda a Wendy Morris, Clydfan. Dangoswyd dwy ffilm i'r plant gan Mrs N. Roberts, Annedd Wen. Yr oedd y taflunydd yng ngofal Mr. J. Williams, Gweledfa. Diweddwyd trwy weddi dan arweiniad y Parch. W.O. Roberts.

DIOLCH — Derbyniodd Mrs Ellen Williams, Tremallt yn ddiolchgar y swm o £107 er cof am ei phriod y diweddar Mr Robert John Williams a chyflwynwyd yr arian i Ganolfan Ambiwlans Caernarfon tuag at gronfa'r 'Caernarfon Ambulance Cardiac Unit.

COFEB BECHGYN RHYFEL 1939–45 — Mewn pwyllgor o gyn-filwyr Llanrug pasiwyd i wneud ymdrech i gael Cofeb i'r bechgyn o Lanrug a gollasant eu bywydau yn y Rhyfel 1939-45 wedi ei osod yn y Sefydliad Coffa erbyn Dydd y Cadoediad y flwyddyn hon. Er sicrhau hyn apelia y pwyllgor at drigolion Llanrug am gyfraniadau at ddileu y gost. Bydd y pwyllgor hefyd yn dra diolchgar pe buasai unrhyw gyfraniadau yn cael eu hanfon i'r trysorydd, Mr. W. Pritchard, Garnedd, Tan-y-coed, Llanrug cyn diwedd mis Ebrill. Rhydd hyn amser i'r pwyllgor i gwblhau'r gwaith mewn pryd.
(Ar ran y pwyllgor: R. Williams, Cadeirydd; E. Owen, Ysgrifennydd; W. Pritchard, Trysorydd.)

Y GYMDEITHAS UNDEBOL — Dathlwyd Dydd Gŵyl Dewi ym Mhlas Tan Dinas gan aelodau Cymdeithas Undebol Bryngwyn, Hermon, Pontrhythallt a Than-y-coed.

Y wraig wadd oedd Mrs Gwyneth Lloyd, Caernarfon (un o blant y Bryngwyn). Cafwyd anerchiad pwrpasol iawn ganddi. Croesawyd hi a'i phriod y Parch. O.M. Lloyd yn gynnes iawn gan lywydd y noson Mrs Iola Butler. Talwyd diolch i Mrs Lloyd gan Mrs Megan Humphreys a'r Parch. W.O. Roberts.

Yn dilyn cafwyd eitemau ar y delyn gan Mrs Megan Roberts, Gregynog ac ar y Trwmped gan ei mab, Gwyn Meirion Roberts. Diolchwyd iddynt gan Mrs J. Ll. Williams, Bod Fair.

Penderfynwyd mynd ar daith hanesyddol eleni i ardal Llangollen yng nghwmni Mrs Beryl Lynch, Carrog ar Mehefin 23.

Swyddogion am y tymor nesaf yw: Llywydd: Mrs M. Lloyd Williams, Trysorydd: Mr Emrys Owen, Ysgrifennydd Mrs E. Whiteside Thomas.

Diolchodd y llywydd i'r swyddogion am eu gwaith yn arbennig Mr Ifor Williams a fu yn drysorydd am rai blynyddoedd.

GWELLHAD — Dymunir adferiad iechyd buan i Mrs Sally Jones, 29 Bro Rhyddallt sydd wedi cael triniaeth lawfeddygol yn ysbyty Walton Lerpwl.



*Y dawnswyr llwyddiannus o Lanrug.*

# DINORWIG

DYDD GWEDDI BYD-EANG Y CHWIORYDD — Cynhaliwyd Dydd Gweddi Chwiorydd y Byd yn Sardis (B) Dinorwig, bnawn Gwener, Mawrth 2. Yr arweinydd oedd Mrs Irene Morris, Maes Eilian, yr organydd: Mrs M.E. Hughes, Groeslon Uchaf. Darllenwyd yr anerchiad ar 'Tyfu'n yr Ysbryd', gan Mrs Dilys Williams, Tŷ Capel, Dinorwig. Cymerwyd rhannau ychwanegol gan Mrs Medwen Griffiths, Mrs Dora Jones, Mrs Elizabeth Jones, yr oll o eglwys Sardis (B); Miss Elizabeth Thomas, Eglwys St. Mair; Mrs Maggie Roberts; Mrs Katie Griffiths; Mrs Maggie Evans; Mrs Betty L. Roberts, yr oll o Dinorwig M.C. Derbyniwyd y casgliad gan Mrs Ada Thomas. Trefnwyd y rhaglen gan Mrs Nellie Williams.

MARW — Chwefror 26 bu farw Mrs Jane Foulkes Jones, Bryn Saint, y Fachwen gynt, yng nghartref ei nith Miss Eleanor Morris, Bron Wendon, Ffordd Abererch, Pwllheli, yn 89 mlwydd oed. Rhoed ei gweddillion i orwedd ym mynwent St. Mihangel Llanrug. Cydymdeimlir â'r perthnasau teuluol.

CYDYMDEIMLO — Cydymdeimlir â Mrs Maggie Evans, Dublin House, ar farw ei brawd Mr William R. Jones, Ffordd Padarn, Llanberis. Hefyd â Mr a Mrs L. Otter, Afallon ym marw tad Mrs Otter yn Nottingham yn ddiweddar.

O'R YSBYTY — Da croesawn gartref o Ysbyty Mon ac Arfon Mr Eirwyn Pleming, 1 Maes Eilian. Dymunir gwellhad pellach iddo, ac i eraill sy'n cwyno yn eu cartrefi.

I'R YSBYTY — Aethpwyd â Mr Alun Phillips, 6 Maes Eilian i Ysbyty Môn ac Arfon. Dymunir yn dda iddo.

MARW — Yn dawel Mawrth 14 yn Ysbyty Goffa Wrecsam, wedi damwain modurol yn Nhachwedd diwethaf, bu farw Mrs Margaret Gwynifer Barnes, Gwynfryn, Dinorwig (Nyrs Rhanbarthol y Cylch). Gweddw ydoedd i'r diweddar Mr John Steuart Barnes. Cydymdeimlir ag Elison eu merch, a'r perthnasau teuluol yn eu colled a'u hiraeth yn y brofedigaeth annisgwyl.


AM DRIP CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO ...............

Eric Morris



Arvonia Coaches
LLANRUG
FFÔN WAUNFAWR 254

# Dyddiadur y Mis

EBRILL 2, Llun: LLANBERIS – Clwb Methedig Eryri. Gyrfa Chwist dan nawdd y St. John's yn y Ganolfan am 7.30. PENISARWAUN – Undeb y Mamau – Sgwrs gan y Parch. Emrys Edwards, Caernarfon.
3, Mawrth: PENISARWAUN – Noson o 'Gawl a Chân' yn yr Ysgol Gynradd am 6.30. Yr elw er budd Cronfa'r Eisteddfod. LLANBERIS – Pwyllgor Lleol 'Steddfod '79 yn Festri Gorffwysfa am 8.00.
4, Mercher: DEINIOLEN – Apel Gwaun Gynfi – Darlith gan y Parch. J. Alun Roberts. LLANBERIS – Clwb y Mamau – Arddangosfa Coginio gan MANWEB.
5, Iau: WAUNFAWR – Sefydliad y Merched – Sgwrs ar 'Arddio' gan Mr Missen. DEINIOLEN – Disgo yn Ysgol Gwaun Gynfi am 7.00, pryd y dewisir Brenhines y Carnifal.
6, Gwener: PENISARWAUN – Undeb y Mamau – Festri'r Pasg am 7.00. LLANBERIS – Noson o Bingo/cyw iar yng Ngwesty'r Gwynedd am 7.30. Yr elw er budd Cronfa'r 'Steddfod.
Disgo yn y Ganolfan – plant Ysgol Dolbadarn o 6.30–8.30; plant hŷn o 8.30–10.30. yr elw at gronfa'r 'Steddfod.
9, Llun: LLANBERIS – Clwb Methedig Eryri. Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Pêl-droed yn y Ganolfan am 7.30.
10, Mawrth: YR ARDAL – Yr ysgolion yn cau am Ŵyl y Pasg.
11, Mercher: DEINIOLEN – Eglwys y Tabernacl –dadorchuddio Cofeb i'r diweddar Barch. George W. Brewer. LLANBERIS – Bingo dan nawdd Cangen Plaid Lafur yn y Ganolfan am 7.30.
12, Iau (Dydd Iau Cablyd) – LLANRUG – Y Cyngor Eglwysi – gwasanaeth Cymun dan arweiniad y Parch. Gwynfor Williams a gweinidogion yr ardal yn Eglwys Sant Mihangel. Clwb Blodau'r Grug.
18, Mercher: LLANBERIS – Clwb y Mamau – noson yng nghwmni Mrs Wroe, Ysgol Brynrefail.
19, Iau: LLANBERIS – Disgo dan nawdd y Clwb Pêl-droed yn y Ganolfan am 7.30. Pwyllgor Carnifal yn yr Ystafell Bwyllgor yn y Ganolfan am 7.30.
20, Gwener: LLANBERIS – Clwb yr Henoed.
23, Llun: YR ARDAL – Yr ysgolion yn dechrau tymor newydd. LLANBERIS – Clwb Methedig Eryri. Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Peldroed yn y Ganolfan am 7.30.
24. Mawrth: LLANBERIS – 'Sioe Ffasiynau' gan Rosalind yng Ngwesty Dolbadarn – yr elw er budd Cronfa Eisteddfod '79.
25, Mercher: BETHEL – Clwb y Mamau. LLANBERIS – Bingo dan nawdd Cangen Plaid Lafur yn y Ganolfan am 7.30.
26, Iau: WAUNFAWR – Merched y Wawr. LLANBERIS – Sefydliad y Merched.
30, Llun: LLANBERIS – Clwb Methedig Eryri. Gyrfa Chwist dan nawdd y St. John's yn y Ganolfan am 7.30.

DYDDIADAU I'W COFIO

MAI 10 – Clwb y Mamau, Llanrug – taith i Theatr Astra, Llandudno i weld Comedi gerddorol 'Viva Mexico'.
MAI 10 – Llanrug – Coroni Brenhines y 'Majorettes' yn Neuadd Ysgol Brynrefail.


CANOLFAN ASTUDIAETH
PARC CENEDLAETHOL ERYRI

Ebrill 27–29
"Adar y Fro – Cwrs dan ofal E. Breeze Jones
Mai 25–28
Dau gwrs yn cyd-redeg
"Bywyd Gwyllt yn Eryri" – cwrs i deuluoedd Cymraeg dan ofal naturiaethwyr y fro
"Crwydro Eryri" – cwrs cerdded i Ddysgwyr Cymraeg


Manylion pellach:
Y Pennaeth, Plas Tan y Bwlch,
Maentwrog, Blaenau Ffestiniog

Ffôn: Maentwrog 324

E.W.Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis
Ffôn 202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI


# CROESAIR RHIF 30



Enw ____________

Cyfeiriad ____________

Anfoner y cynigion fel arfer i: **Myrddin Owen, 32 Stryd Fawr, Llanberis.**

**AR DRAWS:**
1. Anghenus (5)
5. Tristwch (5)
7. Gwŷr dewr (5)
8. Ennaint (5)
9. Gwyllt (5)
10. Atgoffa rhywun am fai (5)
11. Titw Tomos ... (3)
13. Cyfanrif o'r gradd eithaf isel (7)
16. Drws (3)
17. Aeth gwraig hwn yn hallt! (3)
19. Griddfan (7)
24. Ennaint arall (3)
25. Pethau coslyd! (5)
26. Llawer (5)
27. Argoel (5)
28. Erlyn (5)
29. "Ei thalent a'i ... " (5)
30. Llannerch (5)

**I LAWR:**
1. Cyffyrddiad (7)
2. Heb fod ar yr adeg iawn (9)
3. Adfywiad (6)
4. Cymru (6)
5. Y cyfnod sy'n arwain i'r Pasg (6)
6. Cosb ariannol (5)
12. Anfon yn barod (6. 3)
14. Twrw (3)
15. Treigliad o'r pumed mis (3)
18. Pymtheg ceiniog! (7)
20. Ymyl gwely (6)
21. Cymryd gwynt i mewn (6)
22. Planhigion â dail pigog (6)
23. Ôl clwyf (5)

**Cyfrifir y llythrennau canlynol fel UN llythyren:**
ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th.
**Gwobr o £1 i'r ateb cywir cyntaf a dynnir wedi i'r holl gynigion ddod i law.**

**ATEBION CROESAIR RHIF 29**

**AR DRAWS:** 1. Pagan; 5. Lleidr; 7. Eden; 8. Oen; 9. Caleb; 10. Fiola; 11. Lles; 12. Ôl; 13. Diemwnt; 17. Uno; 18. Ras; 20. Nodiant; 23. Da; 24. For; 25. Sanau; 27. Faint; 28. Elw; 29. Sian; 30. Dienw; 31. Is-radd.

**I LAWR:** 1. Padellau; 2. Groeslon; 3. Nenfwd; 4. Heno; 6. Rwbel; 9. Carw; 14. Iti; 15. Môn; 16. Trefnwyr; 19. Seronydd; 21. Dist; 22. Trueni; 23. Dafad; 26. Nain.

**ENILLYDD CROESAIR RHIF 29**

RICHARD MYFYR WILLIAMS
3, STRYD Y DŴR, LLANBERIS

# CHWARAEON

## Edrych I Lawr Ar Bobl

YCHYDIG, mae'n debyg, a ŵyr y rhan fwyaf o ddarllenwyr yr *Eco* am weithgareddau Clwb Hedfan Mona. Mae cartref y Clwb ar y maes awyr ger Llangefni, ac ers bedair blynedd bellach bu llawer o drigolion Gwynedd yn rhoi cynnig ar ddysgu hedfan yno.

Ar hyn o bryd, mae gan y Clwb dros gant o aelodau, a pheth tra chalonnog yw deall mai Cymry Cymraeg yw'r rhan fwyaf ohonynt. Mae yno dair awyren, sef dwy Cessna 150, awyrennau a lle i ddau ynddynt, ac un Piper Cherokee, a lle i bedwar ynddi. Pan fo angen, caiff y Clwb ddefnyddio dwy awyren ychwanegol.

Daw rhai o'r aelodau o fro'r *Eco;* sef Cyril Owen, Bethel; Alwyn Williams, Seion; Dewi Williams, Seion; ac Edwin Evans, Deiniolen. Mae Cyril (Peiriannydd gyda MANWEB), Alwyn (sy'n gweithio i'r Awdurdod Dwr) a Dewi (disgybl yn Ysgol Brynrefail) wedi cael eu trwyddedau hedfan. Dewi oedd yr ieuengaf o holl aelodau Mona i'w hennill, fe'i cafodd ychydig wythnosau ar ôl gwneud ei 'Solo' cyntaf (hedfan ar ei ben ei hun) ar ei ben-blwydd yn 17 y llynedd.



*Dewi a'r Cessna 172.*

'Does ond ychydig er pan ddechreuodd Edwin hedfan, a gwnaeth ei 'Solo' cyntaf ychydig wythnosau'n ôl. Mae ganddo siawns da o gael ei drwydded cyn diwedd yr haf, os caniatâ'r tywydd!

I gael y drwydded, mae'n rhaid bod wedi cyflawni deugain awr o hedfan. Mae'r gwersi yn cymryd tua awr yr un, a gellir disgwyl gwneud y 'Solo' cyntaf ar ôl deng neu bymtheng awr gyda hyfforddwr. Ar ôl meistroli'r grefft o lanio'n ddiogel (glanio'n esmwyth yw rhan mwyaf anodd y cwrs, a dyma sy'n cymryd y mwyaf o amser i'w berffeithio), bydd y dysgwr yn mynd ymlaen i gael hyfforddiant mewn hedfan traws-gwlad. Ar ddiwedd y cwrs, ceir arholiadau ar bapur ('dydyn nhw ddim yn anodd meddai Dewi!) prawf hedfan cyffredinol (rhywbeth yn debyg i'r prawf moduro), a phrawf hedfan traws-gwlad. Yn y prawf olaf, mae'r dysgwr yn gorfod hedfan ar ei ben ei hun, a glanio yn yr Amwythig a Lerpwl cyn dychwelyd i Mona. Cyn derbyn y drwydded, bydd y dysgwr wedi cwblhau o leiaf ddeng awr o hedfan ar ei ben ei hun.

Beth fedrwch chi wneud ar ôl cael y drwydded? Wel, gellwch fynd â'r teulu neu'ch ffrindiau i fyny iddynt gael golwg gwahanol ar yr ardal neu fynd â hwy i unrhyw faes awyr arall. Gallwch gyrraedd Ynys Manaw mewn ychydig dros hanner awr, Lerpwl mewn tri chwarter, a Llundain mewn ychydig dros ddwyawr. Aeth rhai o'r aelodau i le Touquet (Ffrainc) ac yn ôl mewn diwrnod fis Medi diwethaf, ac mae gan fwy nag un ohonynt gynlluniau mawr at yr haf nesaf!

Mae hedfan yn rywbeth sydd, erbyn heddiw, o fewn cyrraedd y 'dyn yn y stryd'; mae'r dyddiau pan oedd yn rhywbeth i'r 'bobl fawr' yn unig wedi mynd! Mae golygfeydd gwych i'w cael o'r awyr, yn enwedig o'r ardal hon. Os oes gennych flys mynd i fyny, ewch draw i Mona; maent yn agored bob Sadwrn a Sul, ac ar rai gyda'r-nosau yn ystod yr wythnos.

Fel y dywed y mwyafrif ar ôl hedfan am y tro cyntaf, "Nid yw'r rhai sy'n byw â'u traed ar y llawr yn gwybod beth y maent yn ei golli!"

*Llongyfarchiadau i'r tri ohonynt, yn enwedig i Dewi am lwyddo mor ifanc. Gobeithiwn y bydd Edwin yntau yn beilot trwyddedig cyn bydd agor maes awyr Gallt-y-Foel – deallwn mai ar Ebrill y Cyntaf y bydd y gwaith o lefelu'r tir yn dechrau!*



*Edwin yn dringo o'r Cessna 150 ar ôl bod yn edrych i lawr ar bobol.*

## RYGBI

**Ysgol David Hughes 6, Ysgol Brynrefail 10. Perfformiad ardderchog gan dîm yr ysgol ar ôl colli yn eu gêm gyntaf, gartref yn erbyn y Borth. Pedwar pwynt yr un oedd y sgôr hanner amser, ond 'roedd mwy o galon yn hogia Brynrefail yn yr ail. 'Roeddynt yn drech na hogia'r Borth ym mhob agwedd o'r chwarae.**

**Cais gan Owain Griffiths a sicrhaodd eu pwyntiau yn yr hanner cyntaf, ac yn yr ail llwyddodd Eifion Jones i drosi ei gais ei hun.**

# Pêldroed

CWPAN BERNARD WARDLE
DEINIOLEN 5  MORFA RANGERS 0

Ar ddydd Sadwrn, Mawrth 3, wedi dros ddeng wythnos o ohirio, chwaraewyd o'r diwedd gêm derfynol Cwpan Bernard Wardle. Enillwyd y cwpan, heb ddim amheuaeth, gan dîm dan 15 oed Deiniolen, gyda sgôr o 5 gôl i 0 yn erbyn Morfa Rangers.

Gwelwyd gêm ddiddorol er anfantais y glaw trwm ar gae oedd yn drwm a lleidiog, a dangosodd Deiniolen eu rhagoriaeth drwy sgorio pum gôl. Aelodau'r tîm oedd: D.J. Brailsford, Llion Evans, Kevin Jones, Euryn Owen (capt.), Gareth Owen, Barry Jones, Piers Baker, Karl Williams, Malcolm Allen, Trebor Thomas, Dilwyn J. Williams, ac fel chwaraewyr wrth gefn Barry Williams ac Arwel Williams. Sgoriwyd dwy gol gan Malcolm Allen, ac un yr un gan Dilwyn J. Williams, Trebor Thomas a Piers Baker.

Bu'r fuddugoliaeth yn sicrwydd o ddychweliad Cwpan Bernard Wardle i Ddeiniolen am yr ail flwyddyn.

Hoffwn longyfarch y bechgyn ar ran darllenwyr yr *Eco* ac hefyd y rhai sy'n gweithio y tu cefn iddynt, sef Elfed Williams a Gwilym Williams.

Da iawn hogia a phob llwyddiant yn eich ymgais i ennill pencampwriaeth Cynghrair Gwyrfai.



## Cynghrair Arfon

**DATBLYGODD Cynghrair Arfon bellach yn ras rhwng dau geffyl, ac mae'n anodd iawn dychmygu nad Llanrug neu Lanberis fydd yn mynd â'r bencampwriaeth. Dau bwynt yn unig sydd rhyngddynt ar gopa'r tabl, y mae 8 pwynt rhwng Llanberis a Thalysarn, sy'n drydydd er bod gêm ganddynt mewn llaw.**

### LLANRUG

**CWPAN IAU GOGLEDD CYMRU ROWND 4**

**3/3/79**

**Rhydymwyn 1  Llanrug 4**

Ar ôl hir ddisgwyl, ildiodd yr eira'n ddigon hir i'r gêm hon gael ei chwarae. Gêm glos yn yr hanner cyntaf, ond Hefin Jones a Vernon Lloyd yn sgorio dwy yr un yn yr ail hanner i sicrhau mai enw Llanrug fydd yn dod o'r het yn y bumed rownd.

**10/3/79**

**Llanrug 4  Pwllheli Res. 1**

Eu hunig gêm Gynghrair yn ystod y mis, a Vernon Lloyd (2), Dic Owen a John Hammond yn sicrhau'r pwyntiau iddynt.

**24/3/79**

**Rownd 1af Cwpan Penrhyn**

**Harlech 3  Llanrug 5**

'Roedd Llanrug bedair gôl ar y blaen ar un cyfnod, ond wedi anaf i'w golgeidwad manteisiodd Harlech ar eu cyfle i ymladd eu ffordd yn ôl i'r gêm. Llanrug yn sgorio eu pumed gôl funud cyn y diwedd. Vernon Lloyd (2), John Hammond (2) a Peter Roberts yn sgorio iddynt.

### LLANBERIS

**3/3/79**

**Porthmadog Res. 2  Llanberis 3**

Kelvin Jones, Gareth Williams a Iwan Evans yn rhoi Llanberis 3–1 ar y blaen yn yr hanner cyntaf, ond gorfu iddynt ymladd yn galed yn yr ail hanner i sicrhau eu gafael ar y pwyntiau.

**10/3/79**

**Talysarn 1  Llanberis 3**

Ray Harding sgoriodd unig gôl yr hanner cyntaf, ac yn yr ail collwyd John Pritchard pan dorrodd asgwrn ei drwyn. Yr eilydd Chris Browne a sgoriodd yr ail a Gwilym Williams, efo anferth o gic o ganol y cae, y drydedd.

**24/3/79**

**Rownd 1af Cwpan Penrhyn**

**Pwllheli Res. 1  Llanberis 1**

Bydd yn rhaid i Lanberis ailchwarae am eu lle yn yr ail rownd ar ôl ymladd yn galed am eu gêm gyfartal ym Mhwllheli. Gwilym Williams a'i hachubodd ar ôl i Bwllheli sgorio yn yr hanner cyntaf.